



TIRWEDDAU'R
DYFODOL
FUTURE LANDSCAPES

ADRODDIAD SYMPOSIWM TIRWEDDAU'R DYFODOL 9-10 Mai 2019

CONTENTS

1. Cefndir
2. Diwrnod 1
3. Diwrnod 2 IBERS: Cyflwyniad
4. Rhoi'r sgwrs yn ei chyd-destun
5. Pam Defaid?
 - a. John Davies
 - b. Paul Sambrook a Jenny Hall, Trysor
 - c. Yr Athro Peter Midmore
6. Celf yn y dirwedd ffermio: Beth all artistiaid ei gyfrannu i'r sgwrs?
 - a. Ffion Jones
 - b. Sion Marshall Waters
 - c. Alicia Miller
 - d. Miranda Whall
7. Cynigion ar gyfer y Dyfodol
 - a. Arfon Williams,
 - b. David Bavin
 - c. Dr Nick Fenwick
 - d. Yr Athro Michael Woods
8. Casgliadau
9. Adborth gan y Cyfranogwyr
10. Dolenni defnyddiol
11. Gyda diolch

CYFRANWYR

David Bavin, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt
Vincent
Alice Briggs, Amgueddfa Ceredigion
John Davies, Canolfan Ymchwil Pwllpeiran
Dr Nick Fenwick, Undeb Amaethwyr Cymru
Alice Forward, Artist (Short & Forward)
Jenny Hall, Trysor
Dr Ffion Jones, Artist
Dr Ieuan Joyce, Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Rhodri Lloyd Williams, Ffermwr
Yr Athro Peter Midmore, Prifysgol
Aberystwyth
Alicia Miller, Ffermwr
Diana Reynolds, Rheolwr Newid Datblygu
Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru
Paul Sambrook, Trysor
Louise Short, Artist (Short & Forward)
Sion Marshall Waters, Artist
Miranda Whall, Artist
Arfon Williams, RSPB Cymru
Yr Athro Michael Woods, Prifysgol
Aberystwyth



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



AMGUEDDFA
CEREDIGION
MUSEUM

1. CEFNDIR

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys casgliadau deuddydd o drafodaethau, gweithdai a chyflwyniadau'r symposiwm 'Tirweddau'r Dyfodol' a gynhaliwyd gan Amgueddfa Ceredigion. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r cwestiynau a ofynnwyd gan siaradwyr gwadd, dolenni i gyflwyniadau ar-lein a recordiwyd yn ystod y symposiwm, ac adborth gan y cyfranogwyr.

Pwrpas y symposiwm oedd canolbwyntio ar greu deialog ynghylch dyfodol ucheldir Ceredigion. Tyfodd y symposiwm 'Tirweddau'r Dyfodol' allan o'r prosiect 'Defaid', a ddatblygwyd gan Amgueddfa Ceredigion. Roedd y prosiect yn cynnwys arddangosfa gelf o'r un enw yn oriel yr amgueddfa, Ebrill - Mehefin, 2019.

Mae 'Defaid' yn ddeialog ynghylch ucheldir canolbarth Cymru. Roedd yr arddangosfa'n mynd i'r afael â'r dadleuon ynghylch y newid o ran ymwybyddiaeth o dirwedd yr ucheldir – neu yn hytrach y newid yn y dirwedd – gan edrych ar hanes, treftadaeth a diwylliant Ceredigion fel cymuned ffermio defaid. Archwiliodd yr Amgueddfa y syniadau hyn gan ddefnyddio arteffactau o'i chasgliad ei hun, gwaith celf a fenthycwyd o gasgliad y Tate, a gwaith artistiaid sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru heddiw.

Mae sgysiau pwysig yn cymryd lle yng Nghymru, ar lefel leol a chenedlaethol, ynghylch defnydd o dir. Fel amgueddfa sirol gyda chasgliad sylweddol sy'n cynrychioli treftadaeth amaethyddol draddodiadol Ceredigion, rydym yn teimlo bod gennym gyfrifoldeb dros ymuno â'r ddeialog gyda'n cymunedau am ein dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn yr arddangosfa'n darlunio defaid mewn rhyw ffordd, neu'r tir a'r bobl sy'n cynnal ffermio defaid.

Rydym yn archwilio arwyddocâd crefyddol defaid a'u symbolaeth trwy gydol hanes celf, sy'n atseinio'n ddwfn o fewn cymuned o ffermwyr Methodistaidd yn bennaf.

Rydym wedi dewis arddangos artistiaid sy'n archwilio themâu gwahanol o fewn cefn gwlad a ffermio, gan gynnwys pobl, lleoedd, gwleidyddiaeth, hanes, daearyddiaeth, bioleg a'r dirwedd. Mae Miranda Whall yn gweithio ar gyfres o ddarnau sy'n ymwneud â'r dirwedd; mae'r cyntaf, sef Llwybrau Croes yn adrodd stori mynyddoedd Cymru o bersbectif dafad. Symudodd Short & Forward o Fryste pum mlynedd yn ôl i gefn gwlad Ceredigion, lle maent wrthi'n datblygu safle newydd ar gyfer trafodaeth hanfodol, celf gyfoes a sesiynau preswyl i arlunwyr ar eu tyddyn. Ar gyfer yr arddangosfa hon maent yn cyflwyno Dai a Nancy, sef ffilm fer deimladwy am fywyd mewn cwm lle ffermir defaid, ochr yn ochr â chyfres o gerfluniau a gosodiadau o ddefaid 'hawdd eu gofal', bridiau prin sydd mewn perygl, a gosodiad o dros 200 o olion carnau defaid o'r tir o amgylch eu fferm, y cyfan yn adlewyrchu natur fregus ffermio yn ucheldir Cymru.

Mae nifer o'r artistiaid o gefndir ffermio eu hunain, gan gynnwys y ffotograffydd Marian Delyth, Carwyn Evans o Gaerdydd, a Christine Mills. Mae Christine wedi defnyddio gwlan yn ei gwaith ers nifer fawr o flynyddoedd, gan ddarlunio straeon am ffermwyr a'u hymdrechion i oroesi. Mae gwaith Morag Colquhoun yn edrych yn fanwl ar ecoleg a bioleg yr ucheldir yn ystod sesiynau preswyl yng Nghwm Elan ac ar Ynys Enlli.

Mi wnaethon ni hefyd gomisiynu artist i weithio'n uniongyrchol â'r gymuned ffermio defaid, sef Ffion Jones.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



2. DIWRNOD 1

Yn artist, darlithydd ym Mhrifysgol Aberystwyth a ffermwr, cynhyrchodd osodiad o ffilmiau yng ngwyddiau gwlan yr Amgueddfa (oriel y trydydd llawr) sy'n cynnwys cyfweiliad â deg ffermwr lleol. Mae ei chwestiynau, gan gynnwys 'beth mae defaid yn ei olygu i chi?' yn trafod y berthynas sydd gan ffermwyr gyda'u preiddiau. Mae gwaith arall yn gorlifo o'r oriel i arddangosfeydd parhaol yr Amgueddfa sef cerfluniau o ddefaid yn yr adran cerameg, ffilmiau defaid yn y sinema, gyda'r cyfan yn adlewyrchu ymdeimlad naturiol y Coliseum o serendippedd a theatr.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn rydym yn arddangos pum darn benthg o gasgliad y Tate. Mae'r lluniau'n cynnwys tri darlun o ddefaid o lyfr brasluniau Henry Moore, llun Joseph Beuys o ddau benglog dafad Sheep B, a phrint sgrin ar bapur gan yr arlunydd o Israel, Menashe Kadishman, sy'n arbenigwr ar ddarlunio defaid.

Y Digwyddiad

Mynychwyd y cyflwyniadau gan 65 o bobl, o drawstoriad o sectorau, gyda chynrychiolwyr o'r gymuned ffermio megis Undeb Amaethwyr Cymru, ochr yn ochr â mewnbwn gan weithwyr proffesiynol o bob oed ym maes amaethyddiaeth. Hyn yn ogystal â churaduron, llunwyr polisïau, gwyddonwyr, daearyddwyr ac artistiaid, i enwi ond ychydig. Trwy fynd i'r afael â themâu yn ymwneud â'r ddadl bresennol am dirwedd canolbarth Cymru drwy drafodaethau panel a gweithdai, trafododd y symposiwm ddyfodol y tir a'r defnydd ohono o fewn cyd-destun sbectrwm eang o ddisgyblaethau.

Yn ogystal, roedd tua dwys o bobl eraill na allai fynychu'r digwyddiad, ond a gyfrannodd ac a roddodd ymateb i'r adroddiad a'r cyflwyniadau. Hefyd, bydd y cynnwys ar gael

i'w lawrlwytho o wefan yr Amgueddfa.

Sgwrsio a Cherdded

Dangos Ffilm yng Nghwm Rheidol 9 Mai 12pm

Dechreuodd y symposiwm yng Nghwm Rheidol, gyda 30 o bobl yn cwrdd ger Y Bwa uwchlaw Stâd Yr Hafod, ac yna'n gyrru i fyny trwy'r goedwig a'r mynydd i gwblhau taith gerdded fer i Ben-y-Garn. Nid oedd y tywydd yn argoeli'n rhy dda ar gyfer y diwrnod, gyda niwl trwchus a glaw ysgafn a thrwm bob yn ail yn ystod y bore, ond ni amharodd hynny arnom ac mewn sawl ffordd, mi ychwanegodd at y profiad. Roedd hi'n briodol dechrau'r digwyddiad yn yr ucheldir, wedi'n hamgylchynu gan y dirwedd roeddem ar fin ei thrafod yn fanwl.

Cafwyd cyflwyniad i Fenter Mynyddoedd y Cambria gan Ieuan Joyce, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Cwm Elan, a John Davies o Bwllpeiran, sy'n meddu ar ddealltwriaeth leol hanfodol. Trafododd Esther Wakeling, Swyddog Prosiect gyda'r Fenter, nifer o themâu eraill ond helpodd i ddiffinio'r prosiect, sy'n 'un eang, ac sy'n anelu at hyrwyddo menter leol, gwarchod yr amgylchedd, ac ychwanegu gwerth at gynnyrch a gwasanaethau yng Nghanolbarth Cymru.'

Yn dilyn y cerdded a'r sgwrsio, aethom yn ôl i lawr y mynydd (gyda rhai ohonom yn gyrru drwy fferm wynt Cefn Croes yn ddamweiniol) ac i lawr â ni ar ein pennau i ddyffryn coediog Cwm Rheidol i gael cinio yng Nghapel Bethel, sef stiwdio gelf sy'n cael ei rhedeg gan Louise Short ac Alice Forward. Ar ôl cinio, mi wylion ni In Our Hands, sef ffilm gan y Landworkers' Alliance. Yna, mi wnaethom ni adolygu'r ffilm fel grŵp, cyn mynd allan i'r cae o dan y capel i



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



DIWRNOD 1

‘ddychmygu’ mathau gwahanol o ddyfodol ar gyfer y fferm.

Cyflwyniad Short & Forward Gweithdy yng Nghapel Bethel, Cwmrheidol 9 Mai

Dangosodd yr artistiaid Alice Forward a Louise Short y ffilm In Our Hands, a gynhyrchwyd gan Holly Black ar gyfer yr elusen Landworkers Alliance (ffilm Seeding Change <https://inourhands.>)

‘Mae pob newid yn dechrau gyda stori ac mae In Our Hands yn adrodd hanes y ffermwyr hynny sydd, trwy obaith, gwaith caled ac ystyfnigrwydd di-ildio’n gwrthod aberthu’u hunain ar allor hanes. Mae’r ffilm ddogfen awr o hyd hon yn mynd â chi ar siwrnai ar draws caeau Prydain, heibio’r perllannau o ffrwythau anghofedig a thryw gaeau o rawn hynafol. Mae’r ffilm yn datgelu doethineb y to hŷn yn ogystal a mentergarwch y to iau, sy’n dod â’r pry genwair yn ôl i’r pridd, y ‘diwylliant’ yn ôl i ‘amaethyddiaeth’, a’r blas yn ôl i’r domato! Rydym yn sefyll ar ymyl y dibyn, mae’r gwenoliaid yn gadael, ond mae dyfodol y tir hwn dal yn ein dwylo ni.’

Bwriad y ffilm angerddol hon, sy’n ffrwyth ymchwil helaeth, oedd hybu trafodaeth fywiog am faterion megis cynladwyedd a’r sofraniaeth bwyd sy’n wynebu ffermwyr heddiw, ar lefel leol a byd eang, ac mi lwyddodd i wneud hynny yn bendant. Er gwaethaf peth amheuaeth, casglodd y gynulleidfa’r swm anrhydeddus o £70 tuag at y Landworkers’ Alliance y prynhawn hwnnw pan basiwyd yr het o amgylch.

Cynhaliwyd ail ran y drafodaeth yng nghanol y cae chwe acer o flaen Troedrhisebon, sy’n cael ei ddefnyddio i bori defaid ar hyn o bryd.

Fel ymarfer i ymestyn ffyrdd gwahanol o feddwl, gwahoddwyd pawb i ddychmygu beth, mewn byd heb ddefaid, yr hoffon nhw weld y tir yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Cafwyd trafodaeth fywiog, gyda bron pob un yn cyfrannu, o bob math o safbwyntiau gwahanol.

www.capelbethel.org

Mae Capel Bethel yn safle gwledig newydd ar gyfer trafodaethau hanfodol, celf gyfoes, cerddoriaeth a digwyddiadau, a agorodd yn Ebrill 2019 ar ôl bod yn segur am bron i ddeugain mlynedd. Wedi’i leoli mewn man delfrydol yng Nghwm Rheidol, ac wedi’i amgylchynu â choetiroedd hynafol gwarchodedig, mae hefyd yn cynnig sesiynau preswyl byr i artistiaid ac awduron lleol a chenedlaethol (ar y cyd â Fferm Troedrhisebon gerllaw), yn ogystal â bod ar gael ar gyfer digwyddiadau cymunedol lleol.

‘Undeb llawr gwlad o ffermwyr, tyfwyr a gweithwyr tir sydd am wella bywoliaeth ei haelodau a chreu system fwyd well i bawb. Rydym yn aelod o La Via Campesina, y mudiad byd-eang o gynhyrchwyr graddfa fach a ffermwyr gwerinol.’
Dyfyniad o wefan y Landworkers Alliance



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



2. DIWRNOD 1

Derbyniad a thaith o amgylch yr arddangosfa 'Defaid'

Daethom ynghyd fin nos i Amgueddfa Ceredigion i gael ein tywys o amgylch yr arddangosfa 'Defaid' gan y curadur cynorthwyol Alice Briggs. Gan ddechrau yn yr oriel, disgrifiodd Alice y curadu a'r cynllunio a wnaed ar gyfer yr arddangosfa. Hefyd, crybwyllodd y gwaith o osod y pum darn a gafwyd ar fenthyg o gasgliad y Tate, yn ogystal â chyfraniad y saith artist lleol oedd yn gysylltiedig â'r prosiect, a oedd yn her sylweddol i'w reoli ynddo'i hun.

Mae'r amgueddfa wedi bod wrthi'n benthycu gwaith celf ers nifer o flynyddoedd oddi wrth bartneriaid megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Aberystwyth. Fodd bynnag, oherwydd yr angen am ddiogelwch ychwanegol, roedd yr Amgueddfa wedi'i chyfyngu o ran y math o waith celf y gallai ei fenthyca a'i arddangos. Ond, yn sgil ail-ddatblygu'r adeilad yn ddiweddar, a hefyd gyda chymorth benthyciadau (y Weston Loan Programme with Art Fund a phrosiect bwrsariaeth Ferryman y Tate), roedd yr Amgueddfa wedi llwyddo i gymryd cam ymlaen o ran gwella cyfleusterau.

Mae enghreifftiau'n cynnwys cas arddangos gwrthymyrraeth hyd at safon GIS y bydd modd ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o fenthyciadau yn y dyfodol.

Mae'r cyfle i sicrhau celf gyfoes proffil uchel i ategu'r gwaith celf sydd yn yr arddangosfa wedi caniatáu inni gyflwyno celf gyfoes i gynulleidfa newydd h.y. cymunedau ffermio gwledig ac anghysbell Cymraeg eu hiaith. Roeddem yn awyddus i weld sut fyddai'r gymuned ffermio yng Nghymru'n ymateb i'r gwaith.

A fyddai edrych ar ddefaid fel pwnc, drwy lens gwahanol, yn rhoi persbectif gwahanol ar thema gyfarwydd? Roedd hon yn her wnaethon ni osod i ni'n hunain, a arweiniodd yn naturiol at feddwl am ddenu cynulleidfaoedd eraill anghyfarwydd..

Roeddem yn rhagweld y byddai'r proffil uwch yn denu ymwelwyr oedd yn awyddus i weld gwaith celf o gasgliadau cenedlaethol, pobl o'r ardal leol na fyddai fel arall yn ymweld o bosib, ochr yn ochr ag ymwelwyr ymroddgar o bellach i ffwrdd, a'r diddordeb o du twristiaid yn gyffredinol.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae nifer o'r gweithiau celf wedi'u gosod yn fwiadol mewn lleoliadau ar wahân o amgylch yr Amgueddfa, fel bod pobl yn dod ar eu traws ar hap. Mae gosod y darn a gomisiynwyd, sef 'Ni yw'r Praidd' gan Ffion Jones, ar y trydydd llawr, yn yr arddangosfa gwyddiau, wedi bod yn arbennig o lwyddiannus, gan ddenu cynulleidfaoedd i wyllo'r ffilm (sy'n cynnwys pobl leol yn siarad am eu profiadau personol fel ffermwyr defaid). Roedd nifer o ymwelwyr lleol nad oeddent wedi mentro i fyny i drydydd llawr yr Amgueddfa ers nifer o flynyddoedd, ac roeddent wedi anghofio bod yna lawer mwy o bethau i'w gweld yno.

Rhoddodd Ffion Jones sgwrs dreiddgar i fynychwyr y symposiwm ar y ffordd yr aeth ati i greu'r gwaith comisiwn, a phwysigrwyd ei chefnidir hithau fel ffermwr defaid o ran creu'r gwaith celf.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



3. DIWRNOD 2 IBERS: CYFLWYNIAD

AMGUEDDFA CEREDIGION – PONT RHWNGYGORFFENNOLA'R DYFODOL

Alice Briggs, Curadur Cynorthwyol Amgueddfa
Ceredigion



Efallai y bydd rhai ohonoch chi'n gofyn i chi'ch hunain pam y mae amgueddfa wedi cynnal digwyddiad yn dwyn y teitl 'Tirweddau'r Dyfodol' ac rwyf am egluro ychydig am sut y daeth hynny i fod. Yn yr Amgueddfa, rydym yn diogelu casgliad gwych o eitemau sy'n ymwneud â hanes Ceredigion, gan gynnwys detholiad mawr o offer amaethyddol, peiriannau ac eitemau sy'n disgrifio bywyd domestig.

Fel curaduron treftadaeth ein cenedl a'n diwylliant, mae cadw a dehongli arteffactau a gwaith celf yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran cadw'r gorffennol, ond hefyd o ran siapio'r dyfodol, ac ni fu adeg well erioed ar gyfer y sgwrs hon.

Cefais fy magu'n Gymraes cenhedlaeth gyntaf ar Mynydd Bach, wedi fy amgylchynu â threftadaeth, diwylliant a iaith gyfoethog cymuned ffermio cefn gwlad. Rwy'n teimlo cysylltiad dwfn â'r tir, y dreftadaeth a'r diwylliant sydd o'm hamgylch. Mae'n rhan sylweddol o'r ffenomena 'milltir sgwâr' dwi'n dysgu amdano bob dydd trwy fy ngwaith yn Amgueddfa Ceredigion.

Nawr, gyda thri o blant fy hunan, ac wedi setlo yng nghefn gwlad Ceredigion, mae bywyd fy ngheulu'n troi o amgylch yr awyr agored, a'r gymuned glos o'n hamgylch, yn debyg i fy mhlentyndod i. Fodd bynnag, o'r hyn a welaf yn y byd ehangach, ac o'r hyn mae ymchwil yn dweud wrthon ni am

faint o amser mae plant (a phobl) yn ei dreulio yn yr awyr agored, ymddengys bod pobl, yn gyffredinol, yn colli'u cysylltiad â'r cylchoedd naturiol sydd o'n hamgylch. Mae pobl yn gweld eu hunain fwyfwy fel 'endid ar wahân' i'r tir a byd natur, yn hytrach na byw mewn harmoni â'u hamgylchedd. Felly sut allwn ni adfer y cylchoedd hyn mewn ffordd sy'n parchu'r amgylchedd ond sydd hefyd yn parchu'r cymunedau o bobl sydd wedi adeiladu eu diwylliant a'u treftadaeth ar y tir hwn? Rwyf hefyd yn gweld mwy a mwy o begynnu barn ar sut allwn ni ddefnyddio'n tir a'i adnoddau, ac mae'r digwyddiad hwn yn fan pontio pwysig sy'n cynnig cyfle inni drafod y safbwyntiau hyn gyda chyd-oddefgarwch a dealltwriaeth. Mae gweithio ar y cyd yn allweddol os ydyn ni am sicrhau newid ystyrlon, ond mae'n bwysig nad yw cymunedau Ceredigion yn cael eu heffeithio'n negyddol.

Yn aml mae'n teimlo fel petai llawer o'r cynigion am newid yn dod o'r tu allan i'n cymunedau, ac nad yw'r galw am newid yn cynnwys y bobl sy'n gofalu am yr ucheldir a chefn gwlad Cymru. Fy nadl i yw bod angen inni fod yn well am fynnu trawsnewid sy'n gweithio i ni. Er enghraifft, nid yw cael gwared â'n ceir i leihau ein hól troed carbon yn gweithio pan fydd angen teithio ymhell, ac nid yw'r diffyg trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol yn help. Dyma'r math o ddadleuon y mae angen inni eu cyflwyno'n fwy hyderus. Hefyd, mae gennym y sgiliau a'r arbenigedd i fod yn arloesol a radical, os ydy'r adnoddau angenrheidiol ar gael. Pan nad yw'r sgiliau ar gael, gallwn weithio gyda'n gilydd i ddatrys hynny neu hyfforddi er mwyn bodloni'r gofynion angenrheidiol.

Mae'r digwyddiad 'Tirweddau'r Dyfodol' yn ffurfio rhan o brosiect ehangach, sef 'Defaid' a oedd yn cynnwys



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



3. CYFLWYNIAD

arddangosfa gelf yn Amgueddfa Ceredigion. Yn ogystal ag arteffactau unigryw o'r gorffennol, mae gennym gasgliad celf bach ond arwyddocaol y cafodd yr arddangosfa ei llunio o'i amgylch. Hefyd, comisiynodd yr Amgueddfa ddarn gan yr artist Ffion Jones, sydd wedi gweithio'n uniongyrchol â chymunedau ffermio Cymraeg eu hiaith. Yn ogystal â hyn, arddangoswyd gwaith gan artistiaid o Gymru ochr yn ochr â phum darn ar fenthyg o gasgliad y Tate, gan gynnwys gwaith gan Henry Moore, Menashe Kadishman a Joseph Beuys.

Mae sawl ffordd o gael at y sgysiauw pwysig hyn am ein dyfodol, ond mae artistiaid – p'un ai'n awduron, beirdd, cerddorion, perfformwyr neu arlunwyr – yn aml yn sefyll ar y groesffordd lle mae syniadau, gwyddoniaeth, pobl a gwleidyddiaeth yn cwrdd, a hynny mewn ffordd y gall cyfathrebwyr eraill ond gobeithio dod yn agos ato. Yr artistiaid sy'n adrodd y straeon, yn cymell ac yn dehongli er mwyn helpu i blethu pobl a syniadau.

Gyda'r newid yn yr hinsawdd yn symud i fyny'r agenda gwleidyddol, a chydag ymddangosiad grwpiau newydd fel 'Gwrthryfel Difodiant' a streiciau ysgol Greta Thunberg dros yr hinsawdd, beth allwn ni wneud i helpu? Rydym yn ffodus yng Nghymru bod gennym eisoes Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), sy'n caniatáu inni weithio ar y cyd â'n cymunedau ar lefel ganolog. Mae'n targedu cyfrifoldeb amgylcheddol er mwyn sicrhau Cymru ffyniannus, gydnerth ac iach o fewn cymuned fyd-eang. Fel corff cyhoeddus, mae Amgueddfa Ceredigion (ac yn ehangach, Cyngor Sir Ceredigion) dan orfodaeth gyfreithiol erbyn hyn i ganfod ffyrdd o gyflawni'r nodau hyn. Mae gennym gyfle i fod yn bont rhwng cymunedau, a hwyluso sgysiauw am ein gorffennol a'n dyfodol.

Er mwyn gwneud hyn buom yn gweithio ar rai prosiectau diddorol mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau arweiniol sy'n hyrwyddo newid, gan gynnwys:

Common Cause, sy'n gweithio i osod gwerthoedd sy'n rhoi blaenoriaeth i'r gymuned, yr amgylchedd a chydaddoldeb wrth wraidd sefydliadau diwylliannol, gwleidyddol a dinesig. Happy Museum Project, sy'n gweithio gydag amgueddfeydd i fewnblannu egwyddorion sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth, lles, cydnerthedd, adeiladu perthnasoedd, mesur beth sy'n bwysig, ac yn bwysicaf oll, mewn perthynas â'r prosiect hwn, 'gosod gwerth ar yr amgylchedd a gwarchod y dyfodol, yn ogystal â'r gorffennol'.

Dwi'n ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser rhydd i ddod draw a chymryd rhan yn y trafodaethau, a hoffwn ddiolch yn arbennig i'n holl siaradwyr, staff a gwirfoddolwyr Amgueddfa Ceredigion am eu cyfraniadau cyn, yn ystod, ac ar ôl y digwyddiad. Hefyd, hoffwn ddiolch i'r Weston Loan Programme with Art Fund am noddi'r digwyddiad, a hefyd noddwyr yr arddangosfa 'Defaid', sef bwrsari Ferryman y Tate a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae cyfle gennym i wrando, rhannu a chreu cysylltiadau, yn y gobaith o ddatblygu prosiectau newydd gyda'n gilydd, gan helpu i adeiladu tirwedd yn y dyfodol sy'n gweithio i bawb.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



4. RHOI'R SGWRS YN EI CHYD-DESTUN

Ieuan Joyce, Cadeirydd [Ymddiriedolaeth Cwm Elan](#)

Mae Dr Ieuan Joyce yn ffermio yng Ngheredigion a Swydd Henffordd, gan gyfuno bioamrywiaeth ac amcanion cynhyrchu bwyd. Mae ei ddiddordebau'n cynnwys cadwraeth natur a datblygu gwledig cynaliadwy.

Yn gwirioni ar ddefaid! Ond hefyd ...

yn dibynnu ar ddefaid am yr incwm a geir ohonynt, fel cymaint o bobl eraill yn y gymuned ffermio yng Nghymru. Mae defaid yn unedau cynhyrchol ac economaidd o fewn nifer fawr o gyfyngiadau amrywiol. Os ydy'r elw ar un ddafad yn £30 y flwyddyn, rhaid lluosio hwnnw gyda nifer y defaid sydd gennych i bennu'ch incwm blyneddol, a'ch gallu i gynnal eich teulu yng ngefn gwlad.

Mae'r berthynas gymhleth rhwng defaid, pobl, y dirwedd a natur wedi siapia'r dirwedd, y diwylliant a'r ffordd o fyw sy'n gyfarwyddwyd i ni heddiw yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r berthynas ystyrlon hon yn dyddio'n ôl i'r oesoedd canol ac ymhell cyn hynny mwyaf tebyg. Yn sicr, ychydig iawn sydd wedi newid o ran nifer y defaid ar ein bryniau ers dechrau cadw cofnodion dibynadwy yn yr 1870au. Nid yw hynny'n golygu, serch hynny, na fu unrhyw newid. Yn ddiweddar ma nifer y defaid ar ein bryniau wedi gostwng ymhell islaw'r cyfartaledd hirdymor, tra bod nifer y defaid ar y tir 'canol' wedi codi. Ar yr un adeg, gwelwyd llai o amrywiaeth o ran arferion ffermio (llai o wartheg, silwair nid gwair, ychydig iawn o wair rhos neu ffermio tir â'r raddfa fach) a gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr ardaloedd o dir a ffermir dan gyfarwydddebau amaeth-amgylcheddol.

Hefyd, gwelwyd gostyngiad dramatig, sy'n destun pryder, yn nifer yr adar sy'n bridio yn yr ucheldir a oedd, tan yn ddiweddar iawn, yn rhan hynod werthfawr o dirwedd ucheldir canolbarth Cymru. Mae'r adar a gollwyd neu nas gwelir yn aml yn cynnwys: y gylfinir, y gornchwiglen, y cornicyll aur, pibydd y mawn, mwyalchen y mynydd, coch y grug, y coesgoch, y tingoch, clochdar y cerrig, clochdar yr eithin, y gorhwyaden, pibydd y traeth, a thinwen y garn.

Mae achosion y colledion hyn yn ddiamau'n rhai dyrus. Fodd bynnag, mae adfer tirwedd sy'n gyfuriog o natur yn bwysig i bob un ohonom, ac felly hefyd yr angen i sicrhau'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gan ein tirwedd: storio carbon, dŵr, bwyd, hamdden, lles, ynni. Mae'n rhesymegol awgrymu felly y byddai edrych eto ar yr arferion ffermio a gollwyd, a'r mentrau polisi a arweiniodd at y colledion hynny, yn fan cychwyn da. Mae'n bwysig hefyd cadw mewn cof y sensitifrwyd a'r gwerthoedd lleol, hanesyddol, diwylliannol, economaidd a chymunedol sy'n gysylltiedig â defaid.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council





5a. PAM DEFAID? JOHN DAVIES

GOLWG AR PAM Y MAE UCHELDIR CEREDIGION YN CAEL EI DEFNYDDIO I FFERMIO DA BYW YN BENNAF ERBYN HYN (PWLLPEIRAN)

John Davies, Canolfan Ymchwil [Pwllpeiran](#), Rheolwr
Busnes

Mae John wedi meithrin cysylltiadau ardderchog â'r sector amaeth drwy ei swyddi blaenorol gyda'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF) yn Nhrawscoed, yna fel swyddog caffael da byw ar ran cwmni da byw cydweithredol, ac yna cyfnod fel gwerthwr eiddo amaethyddol ac arwerthwr. Gweithiodd i NFU Cymru fel ymgynghorydd polisi am naw mlynedd, a dros y ddeuddeng mlynedd diwethaf bu'n Gyfarwyddwr Canolfan Fwyd Cymru, yn darparu cymorth technegol arloesol i'r diwydiant Bwyd Amaeth yng Nghymru..

Cyflwynodd John Bwllpeiran a'i gyd-destun hanesyddol fel rhan o Stâd yr Hafod, ac fel mawnog a storfa garbon. Sefydlwyd llwyfan ymchwil yr ucheldir ym Mhwllpeiran yn 2014 (er bod y ganolfan ymchwil ei hun wedi bod yno ers yr 1930au). Mae'n cael ei ddatblygu mae'n gan IBERS (Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig) Prifysgol Aberystwyth gyda chymorth buddsoddiad o £2.5 miliwn gan BBSRC (Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol).

Mae'r ucheldiroedd hefyd yn bwysig yn nhermau dal dŵr ac atal llifogydd. Mawn yw storfa garbon ddaearol fwyaf y DU - mae mwy o garbon wedi'i storio mewn mawn nag yng nghoedwigoedd Prydain, Yr Almaen a Gwlad Belg gyda'i gilydd. Maent yn gefnlen i ddiwydiant twristiaeth gwerth

miliynau o bunnoedd.

Mae mawnogydd yn gynefinoedd o bwysigrwydd cadwraethol rhyngwladol. Sefydlwyd y ganolfan ymchwil i arbenigo mewn treialon diogelwch bwyd, lleihau nwyon tŷ gwydr, a gwarchod bioamrywiaeth. Mae'r problemau hyn yn gofyn am ddefnydd mwy gwybodus a gwell o'r ucheldir drwy ddatblygu planhigion a systemau anifeiliaid newydd. Mae dulliau arloesol sy'n seiliedig ar wyddoniaeth yn cael eu datblygu i gwrdd â'r heriau hyn, ac mae Pwllpeiran ac IBERS mewn sefyllfa dda i arwain agenda ucheldiroedd y DU.

Mae Llwyfan Ymchwil yr Ucheldir, Pwllpeiran yn canolbwyntio ar greu cyfleoedd yn y dyfodol er budd cymunedau sy'n ffermio ucheldiroedd ar draws y DU a thu hwnt.

Crynhodd John ei gyflwyniad gydag awgrymiadau ar gyfer 'dyfodol yr ucheldir', cyn cyflwyno'r cwestiwn i'r gynulleidfa ei ateb..

Pwyntiau allweddol ar gyfer y dyfodol:

- Peidio ag anghofio'r gorffennol
- Peidio â throï ein cefnau ar y gymuned sy'n byw yn yr ucheldir
- Defnyddio defaid ac amrywiaeth o anifeiliaid pori eraill er ein mantais yn eu cynefinoedd naturiol
- Mynd ati i ddatblygu a thyfu planhigion gwahanol a mathau newydd o gnydau
- Defnyddio gwyddoniaeth i ddod o hyd i atebion call.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



5b. PAM DEFAID?

BETH YW DYFODOL YR UCHELDIR? Atebion y cyfranogwyr

Ymateb y gynulleidfa




Roedd y rhan fwyaf o adborth y cyfranogwyr yn cynnwys yr angen i fabwysiadu dull amrywiol a 'mosaig' o ddefnyddio'r ucheldir. Roedd themâu eraill pwysig yn cynnwys yr angen i ddatblygu cydnerthedd, ymwybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth yr ucheldir, ei ymdeimlad o le, a'i bwysigrwydd fel 'hafan'. Ochr yn ochr â hyn, roedd newidiadau polisi a defnydd o dechnolegau newydd er mwyn symud ymlaen hefyd yn ystyriaethau pwysig.

'Mae buchesi gwartheg y DU wedi gostwng 24% dros y 30 mlynedd diwethaf, mae diedyll defaid yn yr ucheldir wedi gostwng yn sydyn fel y gwelsom. Mae bioamrywiaeth wedi lleihau, mae coedwigoedd unllystyfiant wedi cynyddu ers yr Ail Ryfel Byd. Mae cysylltiad rhwng y rhain i gyd, ac maent o ganlyniad i benderfyniadau gwleidyddol. Mae tueddiadau presennol yn dangos y bydd y cyfan yn arwain at gyfuniad bioamrywiol isel o goed pinwydd a gwellt y gweunydd.'

'Mosaig' – cafodd y gair ei grybwyll yn gynharach yn nhermau anghenion y gylfinir – dwi'n hoffi'r term! Mabwysiadu dull 'mosaig' o feddwl mewn perthynas â'r ucheldir. Meddwl/gweithredu mewn âsâ'r ucheldir. Meddwl/gweithredu mewn ffordd ddiganolog. Cydweithredu er budd pawb.'

Tirwedd sy'n cynnal pobl, sy'n cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel er budd cymdeithas, y gall pobl ei mwynhau hefyd.'

'Coetir a glaswelltir cymysg (sy'n awgrymu peth tir pori) sydd hefyd yn gwarchod storfeydd carbon posib a go iawn. Cynefin bioamrywiol sy'n caniatáu cynhyrchu bwyd ar raddfa fach.'



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



5b. PAM DEFAID? TRYSOR

PORI AC ARCHAEOLEG

Jenny Hall and Peter Sambrook

TRYSOR Ymgynghorwyr Treftadaeth ac Archaeoleg

Mae Trysor yn bartneriaeth ymgynghori ar dreftadaeth sydd wedi'i lleoli yn ne-orllewin Cymru ond sy'n gweithio ar draws Cymru a thu hwnt. Sefydlwyd Trysor gan Jenny Hall a Paul Sambrook yn 2004. Mae'r ddau bartner yn archeolegwyr a gweithwyr proffesiynol profiadol ym maes trefadaeth, ac maent yn gwneud y rhan fwyaf o waith Trysor eu hunain.

Nid cynyddu'n raddol a wnaeth ffermio da byw yn ucheldir Ceredigion, mae wedi bod felly ers oes y ffermwyr cyntaf. O ganlyniad rydym yn delio â thirwedd ddynol yn hytrach na thirwedd naturiol. Mae porfeydd yr ucheldir yn ganlyniad miloedd o flynyddoedd o benderfyniadau dynol.

Mae tystiolaeth balae-amgylcheddol o fawnog Gors Lwyd, ym mhen uchaf Cwm Elan, yn rhoi darlun rhannol o'r amodau amgylcheddol tua diwedd yr oes rewlifol a dechrau'r cyfnod cynhanes. Erbyn 8,000BC, ymddengys bod coedwigoedd bedw wedi sefydlu yn y pantiau a'r dyffrynnoedd, cyn ymestyn yn raddol i fyny i'r brynau.

Ym Mhwl Nant Ddu ac Esgair Nantybeddau, dros 5km i'r de o Gors Lwyd, canfuwyd darnau o siarcol yn ddyddio'n ôl i tua 7,500BC, tystiolaeth o'r dylanwad dynol cyntaf ar yr ardal. Roedd yr amodau'n fwy llaith o lawer, ond arweiniodd cynnydd yn lefel y peilliau coed gwern ar ôl 6,200BC at amodau mwy agored, gyda pheilliau glaswellt a hesg iachach yn cynyddu erbyn tua 5,000BC. Gall hyn fod yn dystiolaeth o glirio coetiroedd ar gyfer hela, gyda'r brynau agored yn cael eu defnyddio i bori anifeiliaid domestig yn


ystod y cyfnod Neolithig.

Tua diwedd y cyfnod Neolithig (2,200BC), roedd gweithgaredd dynol hefyd yn ddiamau yn ffactor a arweiniodd at newid yn yr amgylchedd, ac mae ymddangosiad peilliau sy'n gysylltiedig ag amaethu yng Ngors Lwyd, gan gynnwys Dail Llwynhidydd, yn arwydd bod anifeiliaid domestig bron yn sicr yn pori yn yr ardal tua dechrau'r Oes Efydd.

'The first river be side Tyue that I passid over was Clardue, that is to say Blak Clare, no great streame but cumming thorough craggies. In the farther side of hit I saw ii. veri poore cotagis for somer dayres for catel, and hard by were ii. hilletes, thorough the wich Clarduy passith, wher they fable that a gigant striding was wont to wasch his hondes, and that Arture killid hym. The dwellers say also that the gigant was buried therby, and shew the place.'

John Leland 1530au

Yna aeth TRYSOR ymlaen i drafod problemau gwarchod treftadaeth mewn ardaloedd lle mae rheolaeth 'ail-wylltio' ar droed, gan esbonio'r difrod mae'n ei achosi i henebion a safleoedd o ddiddordeb hanesyddol. Yna cyflwynwyd y broblem hon i'r gynulleidfa ar ffurf cwestiwn ynghylch gwarchod ein treftadaeth yn y dyfodol.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



5b. PAM DEFAID?

A FYDDECH CHI'N BAROD I ROI'R GORAU I BORI, GAN ABERTHU TREFTADAETH A THWRISTIAETH YN YR UCHELDIR?


Atebion y cyfranogwyr

Y teimlad cyffredinol ymhlith y gynulleidfa oedd bod y cwestiwn yn un arweiniol a gorsyml, felly roedd hi'n anodd ateb mewn ffordd agored, a doedd dim ateb ie/na clar i'r ddadl. Mae angen inni feddwl y tu hwnt i'r deuoliaethau a gweithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i atebion gwahanol, a gofalu ein bod yn edrych ar bob safle ar sail ei rinwedd ei hun, yn hytrach nag awgrymu atebion cyffredinol. Ymatebodd nifer o bobl gydag opsiynau neu gwestiynau eraill.

'A oes modd inni droi'r cloc yn ôl ac esgus nad ydyn ni eisoes wedi newid y tir hwn i raddau amhosib?'

'Mae angen cael rhyw ffordd o roi blaenoriaeth i safleoedd y dylid eu cadw, ac eraill y gellir eu haberthu. Does dim un ateb sy'n briodol i bob un.'

'Ymhen 30 mlynedd, gyda chymdeithas sydd wedi'i dal yn dynn yng nghrafangau'r newid yn yr hinsawdd, cnydau'n methu, a mudo oherwydd diffyg adnoddau economaidd; a fydd twristiaeth yn berthnasol? Neu a fydd yn foethusbeth neu'n gysyniad henffasiwn. Bydd ein treftadaeth yn troi o amgylch ymddygiad y cenedlaethau blaenorol a greodd y byd newydd



- ia, byddai'n barod
- na, ni fyddai'n barod
- rhy syml
- nid naill ai / neu
- newid yn yr hinsawdd
- opsiynau eraill
- abertth
- cyfaddawd
- systemau pori cytbwys
- iawn, gydag amtreuon
- gall twristiaeth newid
- atebwyd gyda a chwestiwn
- ie, caniatáu rhai



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

AMGUEDDFA
CEREDIGION
MUSEUM

5c. PAM DEFAID? ATHRO. PETER MIDMORE

SAFBWYNTIAU CROES AR RÔL DEFAID YN UCHELDIR CYMRU

Yr Athro Peter Midmore, Prifysgol Aberystwyth



Mae Peter Midmore yn economydd amaethyddol sydd wedi ymchwilio'n helaeth i ddatblygiad economaidd yng nghefn gwlad, yn enwedig yng nghyd-destun Cymru. Mae ei waith diweddaraf yn edrych ar effaith economaidd gwyddoniaeth ymchwil amaethyddol, a rôl perthnasoedd ffermio a theuluol ar gydnerthedd busnesau amaethyddol.

Esboniodd Peter Midmore nad oedd yna gonsensws clir ar rôl gymhleth a dadleuol defaid yn yr ucheldir. Defnyddiodd y cysyniad seicolegol o ffurfio meddylfryd, sef set sefydlog o agweddau sydd gan unigolyn neu grŵp, i ddangos pam y mae hi mor anodd datrys gwrthdaro. Defnyddir meddylfryd i brosesu ffeithiau a sylwadau, a gall barn a gwerthoedd blaenorol ddylanwadu'n drwm arno. Mae meddylfryd gwahanol yn arwain at ddehongliadau gwahanol o'r un ffeithiau neu sylwadau, mae rhyngweithio rhwng unigolion sy'n rhannu'r un feddylfryd yn atgyfnerthu'r canfyddiadau hyn.

Amlinellodd dri meddylfryd cyffredin mewn perthynas â defaid yn ucheldir Cymru. Mae economeg neoryddfrydol yn cwestiynu ymyrraeth y farchnad fel ffynhonnell llawer o'r gwrthdaro yn yr ucheldir. Mae datblygu gwledig/diogelwch bwyd yn gweld ffermwyr fel rheolwyr tir pori'r ucheldir, sy'n sicrhau buddiannau cymdeithasol, ac yn rhoi blaenoriaeth i drefniadaeth socio-economaidd draddodiadol. Mae ecolegwyr adfer yn rhagweld llai o lawer o ffermio, gan ganiatáu i systemau naturiol fynd yn ôl i'w cyflwr cyn-amaethyddol. O ran y meddylfryd cyntaf, mae

economegwyr prif ffrwd yn gweld rôl tariffau, cwotâu a chymorthdaliadau fel un sy'n llurgunio'r farchnad fwyd.

Nid yw ffermio defaid ei hun yn cael ei warchod yn ofalus, ond mae'r gwrthwyneb yn wir am brisiau grawn yr UE ac mae hynny'n arwain at brisiau uchel ar gyfer cigoedd eraill, gan olygu bod stoc sy'n byw ar borfa'n ymddangos yn rhatach i ddefnyddwyr. Mae cost gyffredinol gwarchod amaethyddiaeth oddeutu 1% o'r Cynnyrch Domestig Gros, ond mae prisiau bwyd uchel yn effeithio mwy ar bobl dlawd. Pe byddid yn rhoi'r gorau i warchod, byddai ffermwyr yr iseldir yn cynhyrchu mwy o ddefaid, dim ond ffermwyr mwyaf effeithlon yr ucheldir fyddai'n gallu dal ati, a byddai tir mynyddig yn cael ei ryddhau ar gyfer coedwigoedd sy'n amsugno carbon.

Fodd bynnag, ers yr 1970au, mae economeg gonfensiynol wedi mynd yn fwy a mwy mathemategol a dibynnol ar symleiddio tybiaethau. Mae dau o'i syniadau allweddol, sef rhanadwyedd diddiwedd (mewnbynau ac allbynau fel ei gilydd), ac adenillion digyfnwidd i faint, yn methu, yn arbennig o ran ffermio ucheldir. Mae ffermydd yn fusnesau teuluol hirdymor, sydd wedi'u siapia gan briddoedd, microhinsodau, a strwythur y daliadau sy'n eu hamgylchynu. Maent wedi'u cyfyngu o ran maint a lleoliad, wedi'u pasio i lawr y cenedlaethau, gan greu ymdeimlad o falchder, o berthyn i'r tir, ac o alwad. Mae'r modd y mae busnesau ffermio wedi'u gwreiddio yn eu cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol yn golygu na fyddant yn ymddwyn ar y cyd fel mae'r ddamcaniaeth yn awgrymu.

Mae'r ail feddylfryd yn ymwneud â gwella perfformiad technegol, amgylcheddol ac economaidd amaethu bugeiliol,



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



5c. PAM DEFAID?



gan ganiatáu iddo gynnal a gwella'i safle fel y grym sy'n gyrru economi cefn gwlad. Mae'n cydnabod natur fregus busnesau ffermio teuluol, ac yn gweld dimensiynau diwylliannol a chymdeithasol ffermio fel asedau sydd angen eu meithrin er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a phreifat mewn ardaloedd anghysbell. Ar raddfa ehangach, mae'n ymwneud â'r ddilema triphlyg o dwf poblogaeth y byd, colli cynefinoedd, a'r newid yn yr hinsawdd, gan ddadlau y bydd angen holl asedau ffermio yn y dyfodol, ac na ddylid eu hesgeuluso mewn perthynas ag ystyriaethau tymor byr. Nid yw'r weledigaeth hon yn ymwneud â defaid fel y cyfryw, ond am sut y gall yr anifail fod yn fwy cydnaws â'r hinsawdd a chynefinoedd, gan gyfuno gwelliannau genetig, rheolaeth tir, a dealltwriaeth socio-economaidd i ddyfeisio math o ffermio ucheldir sy'n fwy derbyniol yn gymdeithasol, ac yn fwy ystyriol o'r amgylchedd.

Un o brif ddiffygion y meddylfryd hwn yw nostalgia. Mae pobl fel arfer yn ystyried y degawdau a fu fel oes aur, gan anghofio am y pethau gwael, a thanbrizio buddiannau'r presennol. Nid yw ffermio yn ucheldir Cymru'n eithriad yn hyn o beth. Ffurfiwyd cydnerthedd presennol systemau ffermio gan amodau gwael, bywyd anodd a chydau'r diciâu yn atgof diweddar. Mae nifer y daliadau, yn enwedig daliadau amser llawn sy'n cynnal teulu, wedi gostwng cymaint fel bod ffermio yn y bôn wedi'i wahanu oddi wrth weddill yr economi wledig. Mae ei bwysigrwydd wedi crebachu cymaint fel na fyddai ei dranc yn cael effaith economaidd nodedig (llai, er enghraifft, nag effeithiau cynni cyllidebol ar awdurdodau lleol), serch y byddai'r amgylchedd yn cael ei effeithio'n uniongyrchol ac yn sylweddol.

Mae'r trydydd meddylfryd yn fwy cymhleth ac mae'n

ymgorffori dadleuon sy'n seiliedig ar baradocs eironig.

Cytunir bod gweithgaredd dynol wedi achosi newid ecolegol, ond anghytunir ynghylch pa fyth cyntefig ddylai fod yn feincnod o ran pryd roedd yr ecosystem yn gweithredu hyd yr eithaf (e.e. mae yna arwyddocâd tra gwahanol i'r cyfnod rhyngrewlifol neu'r cyfnod Holosen cynnar). Hefyd, barn gyffredin ymhlith ecolegwyr adfer yw y byddai angen rheolaeth bwyllog i sefydlu unrhyw fath o ecosystem hunan-reoledig. Yn hytrach na sicrhau adferiad, gallai ailwylltio arwain at ecosystem gwbl newydd, gyda chanlyniadau gweithredol nas rhagwelwyd.

Fodd bynnag, er bod dryswch o'r fath yn gwneud i ailwylltio ymddangos yn llai cadarn nag un ai meddylfryd Neoryddfrydol neu feddylfryd gwledig, mae'n bwysig deall beth sy'n ei wneud yn boblogaidd fel dewis amgen. Mae'r argyfwng ecolegol, sy'n gytuniad o erydiad pridd, colli cynefinoedd, newid yn yr hinsawdd, a phwysau trefol, yn bygwth gwasanaethau ecosystemau, sy'n cael eu tanbrizio, yn ôl pob golwg, gan lywodraethau a busnesau. Tra bod twf economaidd wedi arwain at ddefnydd cynyddol o ddeunyddiau, does dim o hynny wedi arwain at fuddiannau net o ran lles cymdeithasol, p'un ai y mesurir hwnnw'n anffurfiol neu drwy ddulliau systematig. Mae cyfuniad o'r materion hyn wedi arwain at bryder amgylcheddol. Mae'r rhwystredigaeth gyffredinol ynghylch y diffyg brys, tybiedig neu go iawn, i ddelio â'r pryderon dirfodol hyn yn ystyried dad-ddwysáu ffermio fel opsiwn llawer gwell na dwysáu, a phetai'n dod i'r pen, lleihau'r rheoli a chael gwared arno'n gyfan gwbl yn y pen draw fyddai orau. Cafodd y drafodaeth ei chrynhof drwy ystyried y broses araf a graddol o leihau'r gwrthdaro rhwng pob meddylfryd gwahanol. Dylai'r cam .



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



5c. PAM DEFAID?

cyntaf pwysig gydnabod pam eu bod wedi datblygu a sut maen nhw'n gweithio. Gall cydnabod pryderon ar y naill ochr a'r llall helpu. Rhaid i'r meddylfryd gwledig esbonio sut y gall mwy o ddefaid neu ddefaid gwell na'r rhai presennol gyd-fynd â'r nod o wrthdroi'r dirywiad o ran gwasanaethau'r ecosystem; rhaid i'r meddylfryd ail-wylltio ddangos sut y gall rheoli'r ucheldir mewn ffordd lai dwys fynd ochr yn ochr â chynnal bywoliaethau teuluoedd ffermio a'r arferion hanesyddol a drysorir ganddynt. Ym maes economeg, un farn newydd sy'n magu nerth yw mai cydnherthedd, yn hytrach na thwf, ddylai fod yn brif darged i bolisiau. Gallai symud seiliau'r drafodaeth hon gael effaith bosib enfawr, a bod o fudd i bob persbectif gwahanol ar rôl defaid yn ucheldir Cymru.


ALLWCH CHI FEDDWL AM FFYRDD Y GALLAI EICH GWELEDIGAETH CHI O DDYFODOL Y DIRWEDD GWRDD Â GOBEITHION POBL NAD YDYNT YN RHAN O'CH GWELEDIGAETH?

Atebion cyfranogwyr

Y thema glir oedd yn deillio o'r adborth oedd bod angen inni wrando ar ein gilydd. Roedd geiriau allweddol yn cynnwys yr angen i gyfathrebu, cydweithio a chyfaddawdu, a defnyddio systemau ffermio cymysg. Ystyriwyd bod gwerthuso'r systemau gwahanol a defnyddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau hefyd yn allweddol.

'Arddangos drwy esiampl, perswadio trwy ddangos iddyn nhw beth sydd wedi/y gellid ei gyflawni drwy ddysgu byw'n wahanol.'
'Mae cyfathrebu'n allweddol. Ni allwn eistedd mewn seilos.'

'Chwalu'r rhwystrau ni/nhw. Nodi un nod cyffredin 'Chwalu'r rhwystrau ni/nhw. Nodi un amcan cyffredin o fewn pob meddylfryd. Efallai mai cyfaddawdu yw'r unig ffordd. Yn enwedig mudwr o Gymru neu Loegr, trefol neu wledig, ffermwr neu gadwraethwr.'



- cyfaddawdu
- system ffermio gymysg
- cyfathrebu
- cydweithredu cymunedol
- gwerthuso
- gweithio ar sail canlyniadau
- treftadaeth diwylliannol
- gwrando
- meddwl agored
- empathi
- polisi



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



6a. CELF O FEWN Y DIRWEDD FFERMIO A BETH ALL ARTISTIAID EI GYNNIG I'R SGWRS?

'NI YW'R DIADELL / WE ARE THE FLOCK' Dr Ffion Jones



Mae Ffion Jones yn artist a ffermwr sy'n byw ac yn gweithio yn ardal Talybont, lle mae'n cadw diadell o Ddefaid Mynydd Cymreig a Buchod Hereford. Mae ei gwaith yn aml yn archwilio hunaniaeth a'r diwylliant ffermio, wrth iddi geisio mynegi cymhlethdodau'r ffordd o fyw amaethyddol.

Trafododd Ffion ei gwaith comisiwn newydd ar gyfer Amgueddfa Ceredigion, a ddatblygwyd drwy ymgysylltu â chasgliad amaethyddol yr Amgueddfa, yn ogystal â chymuned ffermio defaid Ceredigion.



Roedd y cyflwyniad hwn yn archwilio sut mae fy rôl i fel ffermwr a merch ffarm yn chwarae rhan hanfodol yn y sgysiaau a gaf i gydag aelodau o'r gymuned amaethyddol. Gan fyfyrion ar eiliad allweddol o sylweddoliad yn ystod Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001, pan oeddwn yn 16 oed, trafodais sut y bu i ddigwyddiadau'r cyfnod hwnnw ymgorffori'r rhyng-gysylltiadau cymhleth rhwng fy nheulu a'r ddiadell o Ddefaid Mynydd Cymreig. Esboniais sut mae'r berthynas rhwng dyn a dafad wedi dod yn un o feysydd allweddol fy ymchwil a'm profiad fel artist. Roedd y cyflwyniad yn trafod syniadau megis y berthynas ddwyochrog rhwng da byw a bodau dynol – sut rydym ni, fel ffermwyr, yn profi'r byd ac yn llywio'n ffordd drwy amser, gofod a lle drwy natur ein perthynas â'n defaid. Felly, mae defaid yn dod yn rhan annatod o fy nealltwriaeth o fy hunan yn y byd. Trafodais y broses artistig a'r cynllunio cysyniadol drwy grynhoi peth o fy ngwaith blaenorol ar y cysylltiad rhwng pobl a defaid, cyn esbonio sut es i ati i greu'r gwaith comisiwn ar gyfer Amgueddfa Ceredigion.

Rwy'n cydnabod fy angen fel artist i blethu cymhlethdodau bywyd ffermio i wead fy arferion a'm prosesau artistig.

Trafodais yr her o weithio gyda gosodiad, yn hytrach na ffilm wedi'i ehangu neu berfformiad byw, gan drafod y dylanwad a gafodd offer amaethyddol ac offer prosesu gwlân yr amgueddfa ar fy syniadau cynnar yn ystod y broses.

Esboniais fy mod, yn hytrach na chreu darn o waith oedd yn arddangos defaid, wedi mynd ati i gyfleu defaid drwy'r profiad dynol o weithio gyda nhw bob dydd. Mae'r gwyliwr yn cael y cyfle i edrych i lygaid y ffermwr, ac i gysylltu'r broses o gynhyrchu bwyd a rheoli tir ag wynebau a lleisiau 'go iawn' yn y byd. Rwy'n awgrymu bod y gwaith yn archwilio ymdrechion i roi lle i ffermwyr fyfyrion ar natur eu perthynas â'u defaid. Cawsant eu gwahodd hefyd i fyfyrion ar heriau'r dyfodol, y pethau all fod yn anodd, neu awgrymiadau am gyfleoedd newydd. Roedd y cyflwyniad yn cydnabod cyfraniad amhrisiadwy ffermwyr o wahanol oedran a rhyw, ac o wahanol ardaloedd yng Ngheredigion. Yn y cyflwyniad, rwyf hefyd yn awgrymu'r mathau o brofiadau all ddod i ran cynulleidfya sy'n dod ar draws y gwaith, yn ogystal â chynnig rhyw ymdeimlad o'r ffordd y mae'r gwaith yn gweithio o fewn lleoliad y gosodiad.

Rwy'n cloi'r cyflwyniad drwy ailbwysleisio pwysigrwydd y ddiadell a'r tir i'r rhai sy'n ffermio, a bod angen rhoi ystyriaeth i gymhlethdod y teimladau wrth weithio o fewn cymunedau o'r fath.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



6b. CELF O FEWN Y DIRWEDD FFERMIO BETH ALL ARTISTIAID EI GYNNIG I'R SGWRS?

“LLADRON ETO: BRASLUNIAU O'R MYNYDDOEDD DUON’

Sion Marshall Waters

sionmarshallwaters.com



Mae Siôn Marshall-Waters yn wneuthurwr ffilmiau dogfen a ffotograffydd o Dde Cymru. Graddiodd yn ddiweddar o Ganolfan Granada ar gyfer Anthropoleg Gweledig ym Mhrifysgol Manceinion, ac mae ei brosiectau'n archwilio perthynas pobl â lle, sut mae syniadau o le'n cael eu creu a'u profi, a sut maen nhw'n siapio ymdeimlad unigolyn o'i hunaniaeth.

Roedd sgwrs Siôn yn trafod ei waith yn creu ffilmiau heb naratif neu 'Anthropoleg Weledol', gan ddatblygu gwaith yn y Mynyddoedd Duon, a chysylltu ag unigolion drwy fynychu eglwys fach y tu allan i'r Fenni.



Yn y symposiwm 'Tirweddau'r Dyfodol' cyflwynais ffotograffau a darnau o ffilm o fy mhrosiect Ymchwil a Datblygu ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, Lladron Eto. Mae'r prosiect yn creu portread o hunaniaeth, a pherthyn i gymuned cefn gwlad yn y Mynyddoedd Duon yn Ne Cymru.

Trafodais fy ngwaith ym maes anthropoleg weledol a chreu ffilmiau heb naratif, gan amlinellu sut y gall celf, ffilm, a ffotograffiaeth roi cipolwg inni ar gymunedau, a datgelu gwahanol agweddau ar hunaniaeth a phrofiadau cymdeithasol a diwylliannol.

Trafodais yn gryno bwysigrwydd cynrychioli a hyrwyddo diwylliant o fewn cyd-destunau gwledig, gan nodi bod Country and the City gan Raymond Williams wedi dylanwadu ar fy ngwaith. Mi wnes i hynny i bwysleisio bod cynrychioladau traddodiadol yn rhamantu am gefn gwlad fel gardd Eden, ond ei bod hi hefyd yn bwysig cydnabod bod yna gymunedau sydd wedi'u gadael ar ôl a'u herio gan lobaleiddio modern a chyfalafiaeth. Mae hyn wedi darparu man cychwyn ar gyfer fy ngwaith, sy'n anelu at roi llais i'r cymunedau hynny, ond hefyd i ganolbwyntio ar agweddau cyffredin bywyd bob dydd yng nghefn gwlad.

Roedd y darnau ffilm a ddangoswyd yn stori am sied, yn ogystal â phortread bach o fy sgysiau gyda ffarmwr. Yna mae'r gwaith yn tynnu sylw at y tensiwn cynnil rhwng dirywiad a thrawsnewidiad yr hunaniaeth wledig.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



6c. CELF O FEWN Y DIRWEDD FFERMIO BETH ALL ARTISTIAID EI GYNNIG I'R SGWRS?



Mae **Alicia Miller** yn ffermio Troed y Rhiw Organics, sef fferm garddwriaeth organig yng ngorllewin Cymru, gyda'i phartner Nathan Richards. Mae hi hefyd yn olygydd y We gyda'r Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy ac mae'n ysgrifennu'n rheolaidd ar faterion bwyd cynaliadwy. Mae'n deall bwyd cynaliadwy o bersbectif ymarferol tyfu bwyd ar fferm fach deuluol. Cyn hynny, treuliodd nifer o flynyddol fel curadur ac addysgwr oriel celf weledol gyfoes.

Rwyf am ddechrau drwy gyflwyno fy hun. Er imi weithio am flynyddoedd ym maes celf weledol gyfoes, ddeng mlynedd yn ôl, prynodd fy ngŵr a minnau fferm ger Cei Newydd. Doedden ni ddim yn dod o gefndir ffermio, a dyna'r peth olaf feddyliais i y byddwn yn ei wneud mae'n siŵr. Wedi dweud hynny, dwi'n credu mai dyna un o'r pethau pwysicaf i'w wneud ar y foment, sef ffermio ar raddfa fach mewn ffordd amgylcheddol ystyriol a chynaliadwy, gan fwydo cymuned leol a gofalu'n gydwybodol am lain fach o dir a phopeth sy'n byw arni. O wynebu nid yn unig y newid yn yr hinsawdd, ond hefyd ddirywiad catastroffig bioamrywiaeth y blaned, a llygredd difrifol y moroedd, rhaid inni ddechrau gwneud pethau'n wahanol. Rhaid inni drwsio'r rhwyg yn ein perthynas â'r Ddaear a rhoi'r gorau i weld ein hunain fel endid ar wahân, endid sy'n arglwyddiaethu, sy'n rheibus yn ei ddefnydd o adnoddau'r Ddaear, ac sy'n poeni dim am ei ddiofalwch.

Gall y cwestiwn o 'Beth all artistiaid ei gynnig' o ran y sgysiau am ffermio a'r dirwedd ymddangos, ar un ystyr, yn un amlwg iawn. Mae artistiaid wedi mwynhau perthynas ddwys a pharhaol gyda'r tir a'r creaduriaid sy'n byw arno dros filoedd o flynyddoedd mae'n siŵr. Buont wrthi'n ail-greu'r tir, yn llythrennol, mewn ymarfer sy'n adlewyrchu

angen sylfaenol i ddeall ein perthynas â'r tir hwnnw. Mae 'tirwedd' wedi'i defnyddio fel genre artistig ers amser maith i ddiffinio'n hunaniaeth ni mewn perthynas â'r tir. Ym Mhrydain, mae hyn yn arbennig o wir. I Blake 'green and pleasant land' Lloegr yw achubwr dynoliaeth, a gellir ystyried Constable fel un sy'n paentio mewn ffordd sy'n diffinio hunaniaeth Brydeinig fel rhywbeth sydd wedi'i mewnblannu rywsut yn y tir, sydd wedi'i drin a'i siapio gan amaethyddiaeth, ei wylltineb bron â diflannu'n llwyr. Ond i Constable, fel i Turner, mae'r tywydd yn rym mympwyol, grymus a pheryglus. Mae paentiad Turner Stonehenge, Wiltshire, yn ddarlun o ddymchweliad catastroffig, gyda bugail a'i ddefaid wedi'u dal mewn storm, ac yn brwydro i oroesi yn ôl pob tebyg. I ffermwyr, mae'r tywydd yn rhywbeth sydd ar eu meddyliau trwy'r amser. Yn aml gall arwain at ganlyniadau trychinebus, pwy all agnhofo'r storm tua diwedd gwanwyn 2013 a ddaeth ag eira trwm i ucheldir Cymru, gan ladd niferoedd fawr o dda byw, a sychder yr haf diwethaf, a olygodd bod llawer o dda byw wedi'u difa'n gynnar. I ffermwyr, mae'r tywydd o reidrwydd yn eu hatgoffa pa mor ansicr yw eu proffesiwn. A ydy hynny'n eu clymu'n dynnach i'r blaned?

Dadleua Yuval Noah Harari yn ei lyfr Sapiens, bod amaethyddiaeth yn bla ar y ddaear a grëwyd gan y ddynoliaeth. Pan ddarganfu bodau dynol sut i drin y tir a hwsmona anifeiliaid, mi agoron nhw'r drws i lafur corfforol caled a'r clefydau sy'n dod yn sgil byw'n agos at anifeiliaid. Dadleua bod ansawdd bywyd yn well pan oedd y ddynolryw'n hela a chasglu bwyd, roedd mwy o amser hamdden, ac roedd deiet pobl yn fwy amrywiol ac yn iachach yn y bôbn. Ond drwy glymu ein hunain i'r tir, rydym wedi creu 'gwareiddiad' - y gellid dadlau sy'n bopeth ond gwaraidd.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



6c. CELF O FEWN Y DIRWEDD FFERMIO BETH ALL ARTISTIAID EI GYNNIG I'R SGWRS?



Mae hyn bob amser wedi'n gwahanu ni oddi wrth ecosystem ehangach y blaned; rydym yn byw arni fel pla, mae gan amaethyddiaeth galon dywyll. Bu ei effaith ar yr anifeiliaid a ffermir yn greulon ar y cyfan, ac rydym wedi dinistrio'r pridd rydym yn tyfu'n bwyd arno. Mae 60% o briddoedd y byd wedi'u hisraddio gan arferion ffermio anghynladwy dros y 70 mlynedd diwethaf.

Wrth imi feddwl am y gwaith yn yr arddangosfa 'Defaid', gallaf weld y trafod parhaus ar y cwestiwn o sut i gau'r bwlch rhwng yr hunan a'r byd naturiol, bwlch na ddylai fod yno yn y bôn. Mae creadigrwydd yn dod yn ffordd o drosglwyddo, o ganfod, mapio, ymdoddi, croesi, a bod yn agored i dirwedd sy'n dod yn anhepgor ac yn gyfan.

I Gymru, y gellid dadlau sy'n genedl o ffermwyr, mae defaid yn rhywogaeth eiconig. Maent wrth wraidd trafodaeth hynod o gyfoes am orosiad ffermio yn yr ucheldir ac effaith amgylcheddol defaid ar y tir sensitif hwn, ac awydd rhai pobl i 'ailwylltio'r ucheldir (gyda George Monbiot ymhlith y cefnogwyr mwyaf llafar). Nid wyf am ddchrau'r ddadl hon yma, ond rwyf am ddweud ei bod hi'n rhy hwyr i droi'r cloc yn ôl yn fy marn i.

Mae bwyta'n weithred farbaraidd yn y bôn na ellir ei hosgoi, yn enwedig gyda'r ymchwil cynyddol i ymdeimlad planhigion. Ni fydd feganiaeth yn ein hachub ni na'r blaned. Yr hyn sydd ei angen yw inni blethu'n hunain yn ôl i'r tir, dod unwaith eto'n rhan annatod o'r blaned a'r rhywogaethau sy'n ei rhannu gyda ni. Gallwn ddysgu o'n camgymeriadau yn y gorffennol, gallwn fyw'n wahanol.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



6d. CELF O FEWN Y DIRWEDD FFERMIO BETH ALL ARTISTIAID EI GYNNIG I'R SGWRS?

LLWYBRAU CROES

Miranda Whall - www.mirandawhall.space/

Mae Miranda'n artist sydd wedi'i lleoli yn Aberystwyth. Mae'n gyfarwyddwr y cwrs BA Celf Creadigol ac yn ddarlithydd llawn amser ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn ddiweddar cwblhaodd Whall rhan gyntaf trioled yn dwyn y teitl Llwybrau Croes. Ariannwyd rhan Gymreig y prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Datblygwyd y prosiect rhyngddisgyblaethol gyda Chanolfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran, IBERS, Prifysgol Aberystwyth ac oriel gelf Oriol Davies, Y Drenewydd. Ar hyn o bryd mae Whall yn gweithio ar ail ran y trioled yn Yr Alban gydag Iliyana Nedkova a Horescross Arts, Perth, Yr Alban, a'r Athro Martin Price, cyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil Fynyddig, Prifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd. Bydd y tri phrosiect yn dod â ffilm, perfformiad, symudiad y corff, ecoleg y mynydd a'r ucheldir at ei gilydd; gyda phob prosiect yn adrodd stori mynydd o bersbectif dynol/anifeilaidd gwahanol.

Yn ystod haf a hydref 2017 cropiodd yr artist Miranda Whall dros 5.5 o filltiroedd drwy Fynyddoedd y Cambria, Gorllewin Cymru, yn gwisgo cnu dafad ac 14 o gamerâu GoPro. Mae'r ffilm aml-sgrin a'r gosodiad clywedol, yr arddangosfa, ffilm ddogfen a chyhoeddiad a arddangoswyd yn oriel gelf Oriol Davies yn adrodd hanes difyr Mynydd, gyda'r stori'n cael ei hadrodd o goesau, breichiau, dwylo, pen, cefn, stumog a cheg bod dynol (neu ddafad ddychmygol), gan danlinellu'r ffaith bod gan y ddwy rywogaeth ran i'w chwarae o ran siapiau dyfodol y mynydd. Gobeithir y bydd y cyflwyniad o bersbectif gwahanol ac enactif yn sbarduno ac yn cyfrannu at drafodaeth am y mynydd arbennig hwn, yn ogystal â thrafodaeth ehangach ar econsystemau, amgylchedd a diwylliant mynyddoedd. Comisiynodd Whall

wyth o gerddorion lleol, sef Harriet Earis, Tim Noble, Angharad Davies, Toby Hay, Ric Lloyd, Jasper Salmon, Diarmuid Johnson a Sam Christie i greu cyfansoddiadau newydd ar gyfer y prosiect. Roedd yr awdur Phil Smith, y bardd Zoë Skoulding, y ffotograffydd Hannah Mann a'r gwneuthurwr ffilmiau Rhys Thwaites-Jones hefyd yn gydweithwyr canolog ar y prosiect.

Dechreuodd Whall gropian drwy'r mawn a'r grug ar ffriddoedd uchel Pen y Garn (610m), cyn symud i lawr drwy'r glaswelltiroedd asidig, gwellt y gweunydd, y corsydd brwyn, y tir pori wedi'i wella a'r tir ffermio a reolir, i gyrraedd Canolfan Ymchwil yr Ucheldir, Pwllpeiran yng Nghwmystwyth yn y pen draw. Fel rhyw fath o drôn dafad/dynol ceisiodd ddogfennu, profi a deall y mynydd, ei drigolion a'i fater mewn perthynas â'i chorff, gan symud ar ffurf wahanol drwy'r dirwedd.

Mae proses Whall yn dilyn ôl troed arferion cerdded artistiaid, megis ei thad Dick Whall, Richard Long, Hamish Fulton, Francis Alys, Simon Faithful, Phil Smith ac eraill. Mae hefyd yn cysylltu ag arbrofion cymdeithasol gwyddonol Sacha Dench, a drodd ei hun yn alarch dynol, Thomas Thwaites a fu'n byw fel gafr gyda chymhorthion prosthetig a stumog gafr ffug, a Charles Foster, awdur Being a Beast (2016) a fu'n byw'n achlysurol dros gyfnod o chwe blynedd fel mochyn daear, carw coch, llwynog a gwennol ddu.

Mae Llwybrau Croes yn brosiect tair rhan, a gwnaed cais am arian ar gyfer rhan dau, sef 'Crossed Paths – Scotland', a grëir yn y Cairngorms yn Yr Alban a'i dangos yn Neuadd Gyngerd Perth a Theatr Perth ym Mawrth 2020.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



7. CYNIGION AR GYFER Y DYFODOL: DIANA REYNOLDS, WELSH GOVERNMENT



Gadawyd sesiwn y prynhawn yn agored ar gyfer cyfres dull World Café o drafodaethau ar wahanol bynciau. Arweiniwyd y rhain gan Arfon Williams, Michael Woods, Rhodri Lloyd Williams, Nick Fenwick a David Bavin. Rhoddodd y sesiwn hon gyfle pwysig i'n cynulleidfya gymryd rhan yn y drafodaeth am ddyfodol ein tirwedd. Cafodd y sesiwn ei datblygu gyda'r syniad o ganiatáu i gynrychiolwyr o wahanol bersbectifau o ffermio ucheldir Cymru h.y. ffermio, cadwraeth, y gymuned, polisi ac ati, i ddechrau deialog y gallai pawb gyfrannu ati. Gweithiodd Amgueddfa Ceredigion gyda **Diana Reynolds, rheolwr newid datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru**, i gynnal y sesiwn hon mewn ffordd gynhwysol. Dyma rywfaint o'r hyn a glywsom.

1. Rydym am gael cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n ein helpu i integreiddio canlyniadau o ran bwyd, bioamrywiaeth, dŵr, carbon a datblygiad technolegau, busnesau a chynnyrch newydd (economi gylchol). Gallai hyn fod ar ffurf uwchraddio'n hen syniadau am arallgyfeirio – gan greu ffermydd di-garbon sy'n cyfuno'r dechnoleg ddiweddaraf â dealltwriaeth draddodiadol a gwybodaeth hanesyddol, a chynhyrchu (yn unigol neu fesul clwstwr) deiet dynol cytbwys yn ogystal â sicrhau canlyniadau da ar gyfer natur.

2. Rydym am i gynlluniau amaeth-amgylcheddol fod yn seiliedig ar berthnasoedd a chydweithio lleol, nid ar gyfarwydddebau cyffredinol (sy'n aml wedi methu ag addasu i leoedd penodol neu hyrwyddo atebion integredig). Dylai blaenoriaethau allweddol ar gyfer y cynlluniau newydd gynnwys ail-greu weigrloddiau, pori ffriddoedd i sicrhau'r bioamrywiaeth mwyaf, coed yn y mannau priodol, cynyddu garddwriaeth a ffermio cymysg, gan ddefnyddio'r cynnyrch cyfan (cig neu lysiau ac ati) mewn amryw o ffyrdd gwahanol

(peidio â gwastraffu) e.e. cig, gwlân, offal o ddefaid, a datblygu cylchrediadau lleol, gan greu ynni yn ogystal â bwyd.

3. Mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb dros gael gwared â'r rhwystrau rhag datblygu cylchrediadau lleol. Yn y gorffennol rydym wedi methu â gwneud hyn. Mae yna draddodiad hir o gylchrediadau lleol e.e. Banc y Ddafad Ddu. A oes gennym yr hawl dynol i hyn?

4. Mae angen inni barchu ffermwyr yn y modd rydym yn parchu doctoriaid. Mae angen inni barchu bywyd gwyllt a chofio sut y mae ffermwyr wedi cefnogi a chyd-fyw'n agos â natur e.e. roeddem yn arfer gwarchod nythod y gornchwigen drwy neilltuo ardaloedd yn ofalus cyn torri cnydau, ac yn gyfnewid am hynny, gallem fwyta rhai o'i wyau, yn hytrach na llwgu i fyny ar y mynydd. Erbyn hyn does unman yn agos at y nifer o adar a fu, ac mae angen gwarchod pob un wy er mwyn iddo allu esgor.

5. Mae angen inni dderbyn ei bod hi'n argyfwng arnom (sylwer ar ddatganiadau hinsawdd Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad) a bod bwyd yn anghenraid. Mae angen inni gael pobl ifanc i fynd ati i ffermio a thyfu, ac anelu at gael sofraniaeth bwyd i Gymru – rheolaeth dros gynhyrchu, prosesu a dosbarthu – cysylltu cymunedau â marchnadoedd, gweld ffermio fel sgil bwysig o fewn galwedigaeth, symud tuag at ôl troed di-garbon (fel bod llai o le i ddadlau ynghylch methan).

Crynodeb: a allem ni fuddsoddi mewn math newydd o ffermio yng Nghymru? Ffermio adferol neu ffermio cyfodol dyweder – sef ffermydd o bob maint, ond gyda phob un yn amrywiol ynddi'i hun yn ogystal â mewn perthynas ag eraill. Gallai hwn fod yn gyd-gynllun perffaith o ran ymateb brys, datblygu sgiliau, a sicrhau cyfleoedd gwaith.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



AMGUEDDFA
CEREDIGION
MUSEUM

7. CYNIGION AR GYFER Y DYFODOL

BETH SYDD EI ANGEN AR FFERMWYR HEDDIW?

Arfon Williams, Rheolwr Defnydd Tir [RSPB Cymru](#)

Mae Arfon wedi ymwneud yn uniongyrchol â chynlluniau hinsawdd amaeth-amgylcheddol y Cynllun Datblygu Gwledig yng Nghymru ers dros ugain mlynedd. Un cyflawniad nodedig yn ddiweddar oedd ei ran yn yr adolygiad annibynnol o Glastir Uwch, a wnaeth argymhellion i'r Llywodraeth..

Yn ei rôl fel rheolwr defnydd tir gydag RSPB Cymru, cymerodd ran lawn yn y broses o ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Ei nod, ynghyd â'i gydweithwyr yn y DU a'i bartneriaid ym myd adar gwyllt yr UE, oedd symud y PAC tuag at bolisi sy'n hyrwyddo a chynnal defnydd cynaliadwy o dir. Ar hyn o bryd mae Arfon yn aelod o Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwleig Cymru, ac mae ganddo ddiddordeb yn yr hyn sydd ei angen ar ffermwyr nawr.

'Mae'n ddyddiau anodd ar ffermio ucheldir yng Nghymru ac os ydy'r ffermydd hyn am oroesi, rhaid inni edrych ar atebion mwy hirdymor. Mae ucheldir Cymru ymhlith ein hardaloedd mwyaf cyfuriog o fywyd gwyllt a mwyaf gwerthfawr yn amgylcheddol, felly mae'n hanfodol bwysig ein bod yn gallu cynnal rheolwyr tir yn yr ardaloedd hyn yn y dyfodol. Mae'r ffermydd hyn mewn sefyllfa wych i ddarparu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus, megis lleihau'r perygl o lifogydd, storio nwyon tŷ gwydr, a darparu cartref i fywyd gwyllt. Ac eto, yn wahanol i fywyd, does dim marchnadoedd ar hyn o bryd i'r gwasanaethau pwysig hyn. Fel y cyfryw mae'n gwneud synnwyr perffaith i ddefnyddio cynlluniau fel Glastir

i dalu ffermwyr amdanynt, tra bod marchnadoedd yn cael eu datblygu. Mae cyswllt anorffod rhwng ffermio a'r amgylchedd, ac yn yr ucheldir mae'r berthynas honno wedi'i hystyried gan lawer fel un gwbl negyddol, gyda'r diffiniadau a fabwysiadwyd yn cynnwys ardaloedd sydd dan anfantais ddifrifol. Os ydy ffermio ucheldir am gael dyfodol hyfryd, mae'n allweddol ein bod yn ail-werthuso'r ffordd mae'r amgylchedd yn cael ei ddirnad a'i reoli. Rhaid ystyried yr heriau fel cyfleoedd a rhaid annog ffermwyr, a'u cynorthwyo i ysgwyddo'r rôl hanfodol bwysig o fod yn rheolwyr tir cynaliadwy.

[\(Dyfodol ffermio'r ucheldir – Blog Gwestai gan Arfon Williams\)](#)

Deilliodd tair prif thema newydd o adborth y sesiwn grwpiau.

Cydweithio

Gweithio gyda ffermwyr, gweithio gyda'n gilydd a datblygu atebion gyda nhw, yn hytrach na'u gorfodi arnynt, a pharch ar y naill ochr a'r llall.

'Gweithio gyda ffermwyr yn hytrach na dweud wrthyn nhw beth i'w wneud.'

Polisi

Cynllunio hirdymor wrth greu polisiau, incwm sylfaenol i ffermwyr, buddsoddi yn economi cefn gwlad.

'Polisiau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, nid cyfarwydddebau'

'Ariannu hirdymor'


'Incwm fferm sylfaenol yn sylfaen i economi cefn gwlad'

Arferion Ffermio

Gwella ansawdd y pridd, defnyddio system ffermio gylchol, adeiladu amrywiaeth a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

'Mae ffermio cylchol yn caniatáu amrywiaeth.' 'Cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy'

'Sicrhau hunaniaeth unigolion o fewn cymunedau ffermio.'



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



7. CYNIGION AR GYFER Y DYFODOL

A FYDDAI POBL YN FODLON PLANNU COED AR GAN ACER O DIR FFERMIO YNG NGHYMRU PETAI'N GOLYGU DYMCHWEL CAN ACER O GOEDWIGOEDD GLAW CYSEFIN YM MRASIL?

Rhodri Lloyd Williams, [Fferm Moelgolomen](#) Talybont.

Yma ym Moelgolomen rydym bob amser wedi ceisio ffermio mewn ffordd gynaliadwy, gan greu nid yn unig amgylchedd lle gall da byw ffynnu, ond hefyd un sy'n ystyriol o'r amgylchedd yn gyffredinol. Dyma pam ein bod yn fferm organig ers 1999 a pham ein bod bob amser wedi bod yn rhan o gynlluniau amgylcheddol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Rydym hefyd wedi plannu degau o filoedd o goed dros yr ugain mlynedd diwethaf. Mi blannon ni rai yn ein hardal o goetir derw hynafol, gan gynnwys pinwydd yr Alban, coed cyll, helyg, castan, celyn, ceirios, a nifer o fathau eraill cynhenid. Ers inni ffensio o amgylch yr ardal, rydym wedi gweld coed eraill yn hunan-hadu, megis yr onnen, y gerdinen, y ffawydden a'r fedwen, gan greu coetir cyfoethog ac amrywiol sy'n gyforiog o fywyd gwyllt.

Yn ogystal â'r coetir, rydym hefyd wedi plannu rhai milltiroedd o wrychoedd o amgylch y caeau, ar ôl codi ffensys dwbl i gadw'r da byw allan. Erbyn hyn mae gennym goridorau bywyd gwyllt yn cysylltu ardaloedd mawr o'r fferm, sy'n caniatáu i anifeiliaid deithio pellteroedd maith heb orfod mentro allan o loches y gwrychoedd.

Yn 2012 daeth ein cynllun hydro ar waith, a olygai bod y ffermdy a'r holl siediau, am gyfnodau hir dros y gaeaf (ac yn amlach na pheidio, y rhan fwyaf o'r haf hefyd) yn cael eu pweru gan drydan a gynhyrchwyd ar y safle. Am fod gennym deimladau cryf ynghylch technoleg adnewyddadwy rydym wedi newid ein cyflenwyr ynni ers hynny i gwmni ynni adnewyddadwy, felly, hyd yn oed pan fyddwn ni'n mwynhau cyfnod sych, mae ein hól troed carbon yn isel.

Cwestiwn i'r gynulleidfa

Ar hyn o bryd rydym yn mewnfario 40% o'n bwyd ac mewn cyflwyniad diweddar clywais fod 70% o fewnforion bwyd yr UE yn dod o Frasil. Os mai dyna'r achos, a chyda'r ymgyrch o ambell i gyfeiriad i roi'r gorau i gynhyrchu ar beth tir amaethyddol i wneud lle i fywyd gwyllt, a fyddai pobl yn fodlon plannu coed ar gan acer o dir ffermio yng Nghymru petai hynny'n golygu torri can acer o goedwigoedd glaw cysefin ym Mrasil? Rhaid i'n bwyd ni ddod o rywle, ac mae'n bosib mai dyna'r dewis rydym yn ei wneud yn ddiaidwybod. Trwy gynhyrchu llai yn ein gwlad ein hunain, a ydyn ni'n gwneud dim mwy nag allfario'r broblem – ac efallai ein cydwybod – dramor?

Adborth:

Roedd y rhan fwyaf o'r adborth yn gwyro oddi ar y pwnc i raddau, er bod y rhan fwyaf o bobl i'w gweld yn eithaf pendant y dylem fod yn tyfu'n bwyd ein hunain lle bo modd, yn hytrach na'i fewnfario o bell, gyda rhai'n teimlo'n gryf iawn am fwydydd a dyfir yn lleol. Daeth themâu pwysig i'r fei yn ymwneud ag ariannu a pholisi, amddifadiad gwledig a helpu pobl leol i adeiladu cartrefi neu 'adfer adfeilion', ochr yn ochr â chefnogi ynni adnewyddadwy ac, yn ddadleuol braidd, 'cyfyngu ar fewnfudwyr'.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



7. CYNIGION AR GYFER Y DYFODOL

ALLWN NI FODOLI OCHR YN OCHR AG ADERYN YSGLYFAETHUS FEL YR ERYR AUR OS YW HYNNY’N GOLYGU BUDDIANNAU AMGYLCHEDDOL EHANGACH? David Bavin, [Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent](#)

Mae David yn swolegydd gydag amrywiaeth eang o ddiddordebau. Astudiodd swleg y môr i ddechrau ond yna aeth ymlaen drwy ei waith i ganolbwyntio ar anifeiliaid y DU, gyda diddordeb arbennig mewn anifeiliaid cigysol. Ar hyn o bryd mae’n Swyddog Prosiect Adfer Bele’r Coed gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, sy’n anelu at ail-gyflwyno bele’r coed i rannau o’i gynefinoedd blaenorol yng Nghymru a Lloegr. Maent wedi cwblhau dau gam o’r broses drawsleoli, ac wedi sefydlu poblogaeth o fele’r coed sy’n bridio yng Nghanolbarth Cymru. Hwn hefyd yw’r prosiect cyntaf o’i fath ar gyfer creadur cigysol yn y DU.

Pwyslais cyffredinol y cwestiwn oedd: a allwn ni fyw ochr yn ochr â chymdogion gwyllt ‘problemus’ os ydy hynny’n golygu bod gennym ecosystemau iachach, mwy cadarn? At bwrpas yr ymarfer, gofynnais i bobl dybio bod rhywogaethau fel yr afanc, eryr aur, baedd gwyllt, lyncs ac ati, all weithiau fod yn destun problemau cyd-fyw â bodau dynol, yn cael effaith bositif ar iechyd yr amgylchedd, a bod ein hamgylchedd yn fwy cydnorth a bioamrywiol o ganlyniad i’w presenoldeb. Gyda hynny mewn cof, roeddwn am wybod a fyddai pobl yn barod, neu a allent ddychmygu byw ochr yn ochr â’r eryr aur, er y gwyddys ei fod yn lladd ŵyn a mathau eraill o fywyd gwyllt (gan gynnwys rhywogaethau hynod werthfawr a warchodir, megis y grugiar ddu). Yn y

bôn, a allai pobl oddef rhai effeithiau negyddol er mwyn cael amgylchedd iachach yn gyffredinol.

Adborth:

‘Mae gennym ormod o obsesiwn â rhywogaethau “rhywiol”.’


‘A fydden ni’n gwario llawer o arian?’

‘Does neb am gael anifeiliaid ysglyfaethus sydd ar frig y gadwyn fwyd.’

‘Mae dod ag anifeiliaid ysglyfaethus allweddol yn ôl i gynefinoedd sydd eisoes wedi dirywio’n gam dadleuol.’

‘Mae Norwy’n digolledu ffermwyr.’

‘Beth am o’r gwaelod i fyny?’



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



7. CYNIGION AR GYFER Y DYFODOL

AYWHI'N BRIODOL BODY £3.4 MILIWN O ARIAN AR GYFER Y PROSIECT O'R MYNYDD I'R MÔR YN DOD O YMDDIRIEDOLAETH A SEFYDLWYD GAN Y RHAI SYDD HEFYD YN CYMRYD RHAN UNIONGYRCHOL A/NEU'N SEFYDLWYR CWMNI INGLEBY? MAE'R CWMNI'N FFERMIO DEFAID AR RADDFA ENFAWR AR DIR YN SELAND NEWYDD AC AWSTRALIA A OEDD, TAN YN DDIWEDDAR, YN DDIFFEITHWCH HEB EI GYFFWRDD, OND SYDD ERBYN HYN YN CYNHYRCHU 61,000 O WYN Y FLWYDDYN?

Dr. Nick Fenwick, [Undeb Amaethwyr Cymr](#)

Astudiodd Nick Fenwick cemeg a chemeg cyfrifiannol ym Mhrifysgol Bangor cyn dychwelyd i Sir Drefaldwyn yn 1999 i gwblhau PhD mewn Cemeg Ystadegol Damcaniaethol a Chyfrifiannol.

Esboniodd Nick iddo dyfu i fyny ar fferm fynydd ger Talerddig yn Sir Drefaldwyn, sydd ag ecosystem a dull o amaethu hynod o debyg i un Mynyddoedd y Cambria. Ar y fferm lle cafodd ei fagu, roedd 1,000 o ddefaid yn cael eu pori ar fynydd agored yn yr 1930au, ac roedd y cyfraddau stocio'n gymharol gyson tan y 90au. Yn ei ieuenctid yn y 70au, roedd yna doreth o frithyll yn y nentydd a'r afonydd, cornchwiglod, chwilgorn y mynydd, grugieir, grugieir duon, a rhywogaethau tebyg. Tua chanol y 70au, plannwyd

miloeidd o aceri o goetir o amgylch y fferm, ac mae rheolau amgylcheddol ers y 90au wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr anifeiliaid sy'n pori'r tir, i ryw un rhan o dair o'r hyn ydoedd tua canrif yn ôl. Ers hynny, mae nifer yr adar a'r pysgod wedi dirywio'n sydyn, does dim pysgod yn yr afonydd bellach, dim ond ychydig o gornchwiglod a dim grugieir.

Mae'n cysylltu hyn â choedwigo a gostyngiad yn nifer y da byw sy'n pori'r tir. Tynnodd sylw at ffigurau sy'n dangos bod cyfraddau pori defaid ar ardaloedd eang o ucheldir wedi amrywio, ond eu bod erbyn hyn yn is nag yr oeddent dros gan mlynedd yn ôl.

Nododd hefyd fod cofnodion degwm a thystiolaeth archaeolegol yn dangos bod yna weithgaredd amaethyddol sylweddol yn ucheldir Cymru ers tua 5,000 o flynyddoedd, a chred mai'r newid mwyaf sylweddol i'r defnydd o dir ers yr 1950au yw disodli cynau â'r megis ceirch yn yr ucheldir a'r iseldir gyda phorfa ar gyfer defaid a gwartheg.

Fel y cyfryw, dadleua, er bod gorbori'n broblem mewn rhai ardaloedd am gyfnod am fod cymorthdaliadau'n annog ffermwyr i gynhyrchu defaid, mae'r ffocws ar gysylltiad stereoteipaidd rhwng defaid a phori mynyddoedd wedi arwain at bwyslais difeddwl ar leihau'r lefelau pori ar fryniau a mynyddoedd mewn ffordd sydd wedi arwain at ddinistrio cynefinoedd a bioamrywiaeth.

Tynnodd sylw hefyd at ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n dangos bod yna ardaloedd eang o Gymru, gan gynnwys Mynyddoedd y Cambria, lle mae chwarter neu fwy o'r bobl yn gweithio ym myd amaeth. Byddai effaith



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



7. CYNIGION AR GYFER Y DYFODOL



unrhyw fesurau sy'n lleihau gweithgaredd amaethyddol yn echrydus yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, yn enwedig am fod siaradwyr Cymraeg yn cyfrif am 61% o'r holl siaradwyr ieithoedd Celtaidd (serch bod poblogaeth Cymru'n cyfrif am lai nag 20% o boblogaeth yr holl wledydd a chymunedau Celtaidd). Ar draws Cymru, amaethyddiaeth yw'r categori cyflogaeth gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, ar dros ddwywaith y cyfartaledd cenedlaethol (mae 75% o aelodau'r FUW yn siarad Cymraeg gartref).

Pwysleisiodd Nick y gallai werthfawrogi pam y byddai creu fersiwn yma yng Nghymru o'r diffeithwch a welir mewn mannau fel ucheldir y Pyrenees drwy 'ailwylltio' yn gysyniad deniadol. Fodd bynnag, mae'n credu bod cynlluniau i ddisodli ecosystemau ac economïau gyda syniadau 'ailwylltio' yn anwybyddu'r ffaith bod yr ecosystemau, rhywogaethau a diwylliant presennol yng Nghymru wedi datblygu ochr yn ochr â 5,000 o flynyddoedd o amaethyddiaeth. Yn ychwanegol at hyn, roedd 'ailwylltio'n gyfystyr â disodli'r rhain ar sail tybiaeth drahaus drefedigaethol bod Cymru'n 'diriogaeth newydd' y mae gan bobl eraill yr hawl i wireddu'u breuddwydion ynddi, heb ystyried ei brodorion na'i rhywogaethau ac ecosystemau sefydlog.

O ystyried bod ardal ogleddol Mynyddoedd y Cambria wedi'i chlustnodi'n brif ardal ailwylltio gan Ailwylltio Prydain, ar ffurf y prosiect 'O'r Mynydd i'r Môr' gofynnodd Nick i'r rhai oedd yn bresennol a oedden nhw'n teimlo ei bod hi'n briodol bod y £3.4 miliwn o arian ar gyfer y prosiect yn dod o ymddiriedolaeth a sefydlwyd gan rai sydd hefyd yn rhan uniongyrchol a/neu'n sylfaenwyr Cwmni Ingleby, sy'n ffermio defaid ar raddfa enfawr ar dir yn Seland Newydd ac

Awstralia, oedd tan yn ddiweddar iawn yn ddiffeithwch heb ei gyffwrdd ond sydd erbyn hyn yn cynhyrchu 61,000 o ŵyn y flwyddyn.

Adborth:

Mae dau fater wedi'u cyfuno i raddau yn y cwestiwn ei hun, a chodwyd trydydd mater yn ystod y cyflwyniad. Mi fyddai'n well petai'r tri mater wedi'u trafod yn unigol. Byddai un o'r materion wedi bod yn ddigon yn yr amser oedd ar gael.

Yn gyntaf, a gafodd y tir ym Mynyddoedd y Cambria ei reoli'n briodol yn y gorffennol diweddar o'i gymharu â'r gorffennol pell? Pwy oedd yn gyfrifol am y rheoli ar yr adegau hyn?

Yn ail, os mai dim ond rhai fersiynau o 'ailwylltio' sy'n dda, beth yw'r rheiny?

Yn drydydd, mae'r cwestiwn o argaeledd ac addasrwydd ffynonellau ariannu. A oes yna ffynonellau ariannu amhriodol? Beth sy'n gwneud ffynhonnell ariannu'n amhriodol a beth ellir ei wneud am hynny? A oes yna ymgysylltu a rheolaeth leol ddigonol dros y canlyniadau? Byddai mwy o fanylion, tystiolaeth go iawn, a chyfeiriadau wedi bod o fudd i'r cwestiwn.

Y rhan gryfaf o'r cwestiwn yw'r pwyslais a roir ar gymunedau Cymraeg eu hiaith a'u perthynas ag amaethyddiaeth. Mae hwn yn bwynt sylfaenol ac yn ystyriaeth hanfodol mewn perthynas â chadwraeth ecolegol (a diwylliannol) hirdymor yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn i'w weld yn un adweithiol ar y cyfan, serch y cyfeiriad at yr 'ailwylltio' yn y Pyrenees. Efallai bod yr ELP (Endangered Landscapes



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



7. CYNIGION AR GYFER Y DYFODOL



Programme) yn cael ei hariannu gan Arcadia, ond o leiaf mae'n cael ei rheoli gan Fenter Cadwraeth Caergrawnt, sy'n cael ei chynrychioli gan ecolegwyr a chadwraethwyr uchel eu parch.

Gall fod yn well dal ati i hyrwyddo'r angen am gynaliadwyedd, yn ogystal ag integreiddio ffermio a chadwraeth. Rhaid bod yna ariannu a chymorth cydweithredol i gymunedau ffermio yng Nghymru i hybu cadwraeth, a hyrwyddo bioamrywiaeth er mwyn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Ar y llaw arall, yn ddiamau, mae dealltwriaeth a phrofiadau ffermio a bugeilio traddodiadol â llawer i'w gynnig, a rhaid ystyried hynny ochr yn ochr ag anghenion y cymunedau a gynrychiolir gan y gweithgareddau hyn. Yn ddiamau, dylid gwneud mwy i gynorthwyo a chynnal cymunedau yn ystod cyfnodau o newid, ac mae angen galw ar gadwraethwyr hefyd i gydweithredu a deall.

Jeremy Leighton (un o gyfranogwyr y symposiwm)

Ymateb gan O'r Mynydd i'r Môr

Mae'r prosiect O'r Mynydd i'r Môr yn fenter sy'n anelu at adfer ecosystemau ffyniannus ac economi leol gydnherth ar raddfa tirwedd. Mae'n gyfle i Gymru arwain y ffordd o ran canfod opsiynau newydd ar gyfer pobl a natur.

Nid yw'n golygu mynd â phethau yn ôl i gyfnod cyn dylanwad dynol. Mae economïau gwledig yn gymhleth ac - yn y rhan hon o Gymru - yn gadarnle i'r Gymraeg, sy'n cael ei siarad o hyd gan ganran uchel o'r gymuned ffermio, ac o fewn pentrefi a threfi lleol. Mae traddodiadau ffermio yng Nghymru wedi siapi'r dirwedd a welwn ni heddiw. Mae enwau lleoedd wedi'u plethu gyda hanes eu defnydd dros gannoedd o genedlaethau, ac mae'r dreftadaeth, a'r diwylliant hwn yn hanfodol er mwyn cadw cymunedau lleol, yn ogystal â bod yn rhan o hanes ehangach Cymru.

Mae'r prosiect yn gobeithio cynorthwyo perchnogion tir i ddatblygu addasiadau o ran rheoli tir a fydd yn creu ecosystemau cryfach a mwy cydnherth, ond sy'n mynd law yn llaw â ffermio, gan sicrhau cydnherthedd y diwydiant hwnnw hefyd.

Bydd y prosiect yn cefnogi adferiad ecolegol fel opsiwn a chyfle i greu ecosystemau yn ogystal â modelau ffermio mwy cydnherth. Bydd nifer fawr o ffermwyr yn dewis dal ati i reoli'r tir fel maent bob amser wedi'i wneud. Gall eraill benderfynu fynd ati i adfer cynefinoedd ar rannau o'u tir, er enghraifft, trwy greu coetir newydd neu adfer mawnog. Gall rhai benderfynu cynnal adolygiad mwy cynhwysfawr o'r ffordd y byddant yn rheoli'u tir yn y dyfodol. Nod O'r Mynydd i'r Môr yw darparu opsiynau ychwanegol a gwahanol a fydd yn caniatáu i bobl aros ar eu tir dros y



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



7. CYNIGION AR GYFER Y DYFODOL



cyfnodau anodd sydd i ddod. Ond mi fydd bob amser yn brosiect opsiynol.

Mae yna brosiectau adfer eraill ar raddfa tirwedd o fewn y DU a ledled y byd, ond mae'r prosiect hwn yn unigryw am ei fod yn gweithio gyda thirwedd a morlun sydd, yn y gorffennol, a hyd heddiw, yn cael ei ffermio a'i bysgota. Mae'r prosiect yn gobeithio y bydd gweithio i gefnogi prosiectau presennol, a chysylltu'r rhain â phrosiectau newydd, yn ogystal â chefnogi ffermwyr, yn arwain at dirwedd sy'n cynnal pobl i'r un graddau ag y mae'n cynnal yr ecosystem a bywyd gwyllt. Gyda'n gilydd, mae gennym gyfle i arddangos patrwm o economi cefn gwlad sy'n cynnal y bobl, yr iaith, a'r diwylliant ochr yn ochr â'r angen brys i greu gwell cyfleoedd ar gyfer bywyd gwyllt a lleihau carbon, wrth inni wynebu heriau Brexit a'r argyfwng o ran yr hinsawdd gyda'n gilydd.

Mewn ymateb i bwynt uniongyrchol Dr Fenwick am y ffynhonnell ariannu, mae Cronfa Arcadia'n ariannu'r ELP (Endangered Landscapes Programme), sy'n rhoi arian i'r prosiect hwn, sef cronfa Lisbet Rausing a Peter Baldwin. Mae Lisbet Rausing hefyd yn Gyfarwyddwr Ingelby Farms & Forestry. Nid yw Ingelby Farms & Forestry'n chwarae unrhyw ran ym mhenderfyniadau Arcadia. Mae strwythurau llywodraethu Arcadia ac Ingelby Farms ar wahân ac yn wahanol. Mae Ingelby'n gwmni hunanreolaethol sy'n cael ei redeg yn gwbl annibynnol o Arcadia. Rhaid i Arcadia, fel elusen, weithredu er budd cyhoeddus. Felly nid oes unrhyw gysylltiad rhwng y cwmni ag unrhyw fentrau a ariannir gan Arcadia, gan gynnwys prosiectau a gefnogir gan yr ELP.

Dewisir y prosiectau sy'n cael eu hariannu gan yr ELP ar

erbyn meini prawf cyhoeddedig y rhaglen. Cafodd sail proses dau gam, gyda'r ceisiadau'n cael eu gwerthuso a bob prosiect ei adolygu a'i sgorio'n annibynnol gan aelodau'r Panel Goruchwylio a Dethol, sef grŵp o wyth o arbenigwyr rhyngwladol gyda phrofiad o adfer tirwedd a chadw bioamrywiaeth yn Ewrop. Mae gan Arcadia un cynrychiolydd ar y Panel hwn. Mae'r prosiect O'r Mynydd i'r Môr yn un o wyth o brosiectau a ddewiswyd drwy'r broses hon yn 2018.

Mae'r prosiect yn annog unrhyw rai sydd am wybod mwy i gysylltu â thîm y prosiect. Mae'r prosiect yn cael ei reoli gan bartneriaeth sydd bob amser yn chwilio am bartneriaid newydd, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â rheoli tir amaethyddol.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



7. CYNIGION AR GYFER Y DYFODOL

BETH YW'R PETH PWYSICAF Y GELLIR EI WNEUD AG ARIAN CYHOEDDUS I GEFNOGI CYNALIADWYEDD A CHYFANEDD-DRA UCHELDIR CYMRU?

Michael Woods, (prosiect Global-Rural [DGES](#))

Mae 'Global Countryside: Rural Change and Development in Globalization' ([GLOBAL-RURAL](#)) yn brosiect ymchwil mawr a ariannir gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd. Nod yr astudiaeth yw cynyddu ein dealltwriaeth o drefniadaeth ac effaith globaleiddio o fewn ardaloedd cefn gwlad, drwy ddatblygu dulliau newydd cysyniadol a methodolegol a'u rhoi ar waith.

'Mae Cymru wedi derbyn symiau mawr o arian o'r Undeb Ewropaidd ac mae'n annhebygol o elwa'n sylweddol o unrhyw fudd a ddaw yn sgil Brexit. Bydd y model cyllidol a fabwysiadir gan y DU i ddosbarthu unrhyw arian a geir yn ôl o'r UE rhwng y llywodraethau datganoledig yn allweddol o ran pennu a fydd Llywodraeth Cymru'n derbyn lefelau ariannu cyfwerth â'r rhai a dderbynnir ar hyn o bryd gan yr UE, neu p'un ai y gwelir elir cynnydd neu ostyngiad mewn termau real. Hefyd, gwneir penderfyniadau ynghylch p'un ai i sefydlu rhaglenni ariannu i gymryd lle rhai'r UE o fewn cyd-destun blyneddau lawer o bolisiau cyni, sydd wedi lleihau cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru ac wedi arwain at gwtogi ariannol mewn meysydd megis addysg a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys cymunedau cefn gwlad. Mae'n haelodaeth o'r UE, mewn gwirionedd, yn golygu bod arian wedi'i glustnodi benodol ar gyfer meysydd megis amaethyddiaeth a datblygu gwledig, gan eu hamddiffyn rhag effeithiau cyni.'

'Fodd bynnag, ar ôl Brexit, mi fydd yna graffu mwy manwl ar y broses o ddyrannu arian i'r sectorau hyn, ynghyd â phwysau gwleidyddol tebygol i roi mwy o arian i wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig iechyd. O ystyried dosbarthiad y boblogaeth yng Nghymru ac felly'r galw ar wasanaethau cyhoeddus, byddai ailgyfeirio arian yn y modd hwn yn debygol o arwain at leihau gwariant cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru o'i gymharu ag ardaloedd trefol.'

([Polisi Gwledig ar ôl Brexit, Cymru tud.12](#))

Adborth

Roedd sylwadau'r cyfranogwyr yn canolbwyntio ar welliannau i wasanaethau cefn gwlad, prinder tai fforddiadwy – yn arbennig ar gyfer ffermwyr y dyfodol – addasu'r polisi i newid y system cymorthdaliadau, a newid y ffordd mae'r tir yn cael ei reoli, yn arbennig maint ffermydd.

'Tai fforddiadwy.'

'Capio cymorthdaliadau fel nad ydyn nhw'n mynd i'r ffermydd mawr. 'Targedu cymorthdaliadau ar ffermwyr bach.'

'Seilwaith ar gyfer gweithio gartref h.y. band eang, hefyd niwtral o ran pŵer.'

'Gwasanaeth bysiau, cysylltedd.'

'Cymhorthdal i ffermio sy'n ecolegol ystyriol.' 'Cymhorthdal i amrywiaeth amaethyddol.'

'Amrywiaeth o dda byw, cnydau a mathau o ffermio.'

'Ailgyllunio'r diwydiant coedwigaeth a chynnyrch coedwigoedd.'

'Rhoi i drigolion cefn gwlad er mwyn iddyn nhw wario'n lleol.'



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



AMGUEDDFA
CEREDIGION
MUSEUM

8. CASGLIADAU

Yr Athro Michael Wood, Prifysgol Aberystwyth



Dechreuodd y symposiwm ar y bore lau i fyny ar gopa Pen-y-garn, gyda grŵp bach ohonom yn tyrru o amgylch y garnedd yn edrych allan trwy'r niwl trwchus, a oedd yn clirio digon bob hyn a hyn inni gael cipolwg ar dyrbinau gwynt, coedwigoedd a rhostir. Wrth inni ymwroli i wynebu'r tywydd garw, roeddem yn lled ymwybodol ein bod yn rhoi'r trosiad perffaith ar waith o ran y dadleuon presennol am ucheldir Cymru.



Fely clywsom yn ystod yr ymweliad maes, mae Mynyddoedd y Cambria ac ucheldiroedd eraill yng Nghymru wedi gweld llawer o newid yn ystod eu hanes hir. Am ganrifoedd maent wedi bod yn dirwedd sydd wedi'i thrin a'i haddasu gan bobl, ac am ganrifoedd maent wedi bod ynghlwm â rhwydweithiau a chadwyni sydd wedi ymestyn o Gymru ar draws Ewrop a'r byd. Serch hynny, mi allai'r ychydig flynyddoedd nesaf fod yn gyfnod arbennig o arwyddocaol yn hanesyddol. Mae'r cwestiynau am ddyfodol yr ucheldir yn dod o ddau gyfeiriad o leiaf. Mae ymwybyddiaeth gynyddol o argyfwng yr hinsawdd yn ein hannog i ailfeddlw am y ffordd rydym yn defnyddio'n tir, gan gynnwys materion anodd mewn perthynas â chynnaladwydd ffermio da byw, a gweledigaethau ar gyfer economi ucheldir newydd sy'n seiliedig ar ddarparu gwasanaethau ecosystem, neu ar broses reoledig o gwtogi ar ffermio drwy gyfrwng arbrofion 'ailwylltio'. Ar yr un pryd, mae parhad y model traddodiadol o fferm ucheldir deuluol draddodiadol yn ansicr yn sgil ymadawiad arfaethedig Prydain o'r Undeb Ewropeaidd a'r dadleuon ynghylch ffurf y polisi amaethyddol ar ôl Brexit, a

allai olygu bod taliadau sydd wedi helpu nifer fawr o ffermwyr mynydd i oroesi yn dod i ben. Er mwyn negodi dyfodol ansicr yr ucheldir bydd angen sgysiau rhwng nifer o grwpiau gwahanol sydd â buddiannau yn yr ardaloedd hyn: ffermwyr, trigolion, pobl cadwraeth a hamdden, ac eraill. Yn ystod ail ddiwrnod y symposiwm – ac yn fwy anffurfiol, y cyntaf – dechreuwyd y ddeialog hon, gyda chyfraniadau ysbrydoledig gan banelwyr, a thrafodaethau dwys mewn grwpiau llai yn dechrau amlinellu syniadau a chydgyfeiriadau posib. Cydnabyddir yr angen am ddull cynhwysol yn rhai o'r nodiadau 'post-it' a ysgrifennwyd gan gyfranogwyr mewn ymateb i'r cwestiwn 'beth yw dyfodol yr ucheldir?', gan gynnwys 'Gall cymuned ehangach gael mynediad ato, ei ddehongli, ei gyflwyno, dylanwadu arno, ei ddefnyddio, elwa ohono a phenderfynu – gwneud penderfyniadau amdano.'

Yn amlwg mae ucheldir Cymru'n lle cymhleth, a gall fod o gymorth meddwl amdano fel 'casgliad' o elfennau amrywiol, sydd wedi'u glynu at ei gilydd mewn trefniant dros dro, ond sy'n newid yn gyson ac sy'n rhyng-gysylltu â gweddill y byd. Mae meddwl am ddyfodol posib i'r ucheldir yn golygu meddwl sut all yr elfennau gwahanol ffitio gyda'i gilydd, pa rai sydd fwyaf gwerthfawr, a faint o newid sy'n dderbyniol. Unwaith eto, cafodd cymeriad cymysgryw ac amrywiol yr ucheldir ei adlewyrchu ar nodiadau 'post-it', oedd yn galw am 'Fwy o amrywiaeth – o ran gwaith, cynefinoedd, bywyd gwyllt, gweithgaredd, bywoliaethau, cynnyrch'. Pwysleisiodd nodyn 'post-it' arall gysylltedd yr ucheldir drwy ddychmygu 'ardal gydag ymdeimlad cryf o le – cyswllt â'r gorffennol a'r hyder i newid a datblygu lle positif gyda dyheadau positif a dealltwriaeth o'n lle ni o fewn cyd-destunau cenedlaethol a byd-eang.'



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



8. CASGLIADAU



Ym maes gwyddor cymdeithasol, mae'r cysyniad o gasgliad hefyd yn awgrymu bod gan yr elfennau gwahanol gymysgedd o rolau materol a mynegiannol. Mae elfennau materol yr ucheldir yn cyflawni nifer o rolau defnyddiol amrywiol, o ddarparu cig a gwlân i leihau carbon a phuro dŵr.

Ond nid yw'r cyfraniadau materol hyn yn cyfleu naws a rhin yr ucheldir yn llawn. Mae'r ucheldir hefyd yn llawn ystyron mynegiannol ac emosiynol, fel mae cynllunwyr sydd wedi ystyried datblygiadau ffermydd gwynt fel mater technegol yn unig wedi darganfod, neu fel y tystia'r teimladau cryf ar y naill ochr a'r llall o'r ddadl ynghylch ailwylltio.

Yma, efallai, y mae gan gelf gyfraniad arbennig i'w wneud i'r trafodaethau ar ddyfodol yr ucheldir. Mae artistiaid yn rhan o gymuned yr ucheldir, ond maent hefyd â'r gallu i gyflwyno a chyfleu realiti a posibiliadau'r dirwedd mewn ffyrdd sy'n dyfnhau ac yn herio'n persbectif ohoni. Mae nifer o'r darnau yn yr arddangosfa 'Defaid' yn Amgueddfa Ceredigion sy'n mynd gyda'r synposiwm hwn yn arddangos y potensial hwn. Mae ffilm Ffion Jones Ni yw'r Ddiadell a ffilm Short & Forward Dick a Mary ill dwy'n llwyddo i gyfleu elfennau o ffermio defaid mewn ffordd bwerus, fel rhan fynegiannol o'r ucheldir sy'n gyfarwydd i ni heddiw, ac mewn ffordd sy'n golygu bod hunaniaeth wedi'i siapio o amgylch arferion bob dydd cadw defaid.

Mae gosodiad 'Llwybrau Croes' Miranda Whall, sy'n dilyn traciau defaid i lawr o Ben-y-Garn o bersbectif dafad, yn ein gorfodi i ystyried aelodau eraill o gasgliad yr ucheldir ar wahân i fodau dynol, a'u buddiannau hwythau.

Gall celf hefyd helpu i annog a sbarduno trafodaeth ymhlith cyfranogwyr amrywiol, gall herio uniongrededd, a darlunio opsiynau ar gyfer y dyfodol. Fel mae'r symposiwm wedi dangos, bydd syllu drwy niwloedd ein gwleidyddiaeth bresennol a chael darlun clir o ddyfodol ucheldir Cymru sy'n parchu ac yn cynnal buddiannau pawb sy'n byw, yn gweithio, ac yn mwynhau'r ardaloedd hyn yn anorfod yn gofyn am ymdrech ar y cyd gan ffermwyr, cadwraethwyr, gwyddonwyr cymdeithasol a naturiol, ac artistiaid, gan adeiladu ar y ddeialog a ddechreuwyd yma.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



9. ADBORTH GAN Y CYFRANOGWYR:

Mynychodd 65 o bobl y digwyddiad dros ddeuddydd o sgysiau, trafodaethau, teithiau cerdded a gwyllo ffilmiau. Diolch i bawb a lenwodd y ffurflenni gwerthuso, sy'n ein helpu i wybod beth wnaethon ni'n dda a beth allwn ei wneud yn well.

Yr hyn oedd fwyaf defnyddiol am y digwyddiad ym marn y bobl:

Roedd y mynychwyr yn gwerthfawrogi'n fawr yr amrywiaeth o gyfranogwyr a chyflwyniadau, a'r gynrychiolaeth eang o leisiau o du'r dirwedd a chymunedau cefn gwlad.

'Yr amrywiaeth o bobl a fynychodd.'

'Y positifrwydd a'r cynhwysiant, cefnogaeth o bob cyfeiriad.'

'Y trafodaethau gwyb rhwng nifer o safbwyntiau gwahanol.'

'Cyfle i drafod yn lleol y materion a fydd yn effeithio fwyaf arnom.'

'Egni a brwdfrydedd.'


'Safbwyntiau gwahanol, ymgysylltu â ffermwyr.'

'Themâu a safbwyntiau wedi'u trefnu'n dda ac yn cydblethu.'

Beth alllem ei wneud yn well?

Adolygu'r dechnoleg/sain oedd ar gael ar y diwrnod. Nid oedd y system sain ar yr ail ddiwrnod o safon ddigon da i

Beth alllem ei wneud yn well



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council





10. DOLENNI DEFNYDDIOL

[Dogfen-ymgyngori-brex-it-a'n-tir](#)

Erbyn hyn mae yna gyfnod ymgynghori arall gyda chynigion newydd, sydd ar agor tan 19 hydref 2019.

<https://llyw.cymru/cynigion-diwygiedig-ar-gyfer-cefnogi-ffermwyr-cymru-ar-ol-brex-it>

Undeb Amaethwyr Cymru:
Astudiaeth Cynefin
Ffermio yng Nghymru a'r Gymraeg
<<https://www.fuw.org.uk/cy/polisi/adroddiadau>>

Cymru a thlodi gwledig (sefydliad polisi cyhoeddus Cymru)
<http://piw.org.uk/files/2016/06/An-introduction-to-Rural-Poverty.pdf>

Arfon Williams
<https://community.rspb.org.uk/getinvolved/wales/b/wales-blog/posts/arfon-williams-rspb-countryside-manager-on-taking-action-for-a-countryside-rich-in-wildlife>

[Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Materion Gwledig – Dyfodol Rheolaeth Tir yng Nghymru](#)

<https://landscaperesearch.org/>

<https://inourhands.film/>

Prifysgol Aberystwyth
<https://globalruralproject.wordpress.com/>



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council


AMGUEDDFA
CEREDIGION
MUSEUM

11. GYDA DIOLCH



Diolch i holl gyfranwyr a chefnogwyr y symposiwm, yn arbennig ein partneriaid o Brifysgol Aberystwyth ac Ymddiriedolaeth Cwm Elan.

Diolch i Felix Cannadam am y ffotograffau dogfennol a Pete Telfer, Culture Colony, am ffilmio'r cyflwyniadau. Ariannir y symposiwm 'Tirweddau'r Dyfodol' gan y Weston Loan Programme with Art Fund, sef menter a grëwyd gan y Garfield Weston Foundation and Art Fund.


Mae'r symposiwm yn cael ei redeg ar y cyd â'r arddangosfa gelf 'DEFAID', sy'n edrych ar ddehongliadau o ddefaid, ffermio, a deialogau ar ddyfodol ein tirwedd wledig – yn Amgueddfa Ceredigion tan 29ain Mehefin.

Mae DEFAID hefyd yn ddiolchgar am yr arian a gafwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Ferryman Project: Sharing Works of Art, sy'n rhan o'r Ferryman Partnership Programme, a ysbrydolwyd pan brynwyd darlun William Stott o Oldham Le Passeur (The Ferryman) 1881 ar gyfer Casgliad Cenedlaethol Celf Prydeinig y Tate. Fe'i cefnogir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Weston Loan Programme_ with Art Fund



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



John Ellerman
Foundation

Art Fund



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

